Pecyn Dogfennau

Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru
Uned Gwasanaethau Democrataidd
Adran y Prif Weithredwr
Cyngor Sir Gar
Neuadd y Sir
Caerfyrddin SA31 1JP.

**DYDD MAWRTH, 16 MAWRTH 2021**

**AT: HOLL AELODAU'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **CYFARFOD RHITHWIR** O'R **CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** A GYNHELIR AM **10.00 YB, DYDD MERCHER, 24AIN MAWRTH, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**CYNGOR SIR GAR**

**SYLWCH:** BYDD Y CYFARFOD HWN YN CAEL EI FFILMIO I'W DDARLLEDU'N FYW NEU AR ÔL I'R CYFARFOD ORFFEN. GALLAI'R LLUNIAU A'R SAIN A RECORDIR GAEL EU DEFNYDDIO AT DDIBENION HYFFORDDI YN GYFFREDINOL

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Jessica Laimann** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224178** |
| **E-bost:** | **JMLaimann@sirgar.gov.uk** |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**
**8 AELOD**
(1 Aelod etholedig o bod Awdurdod Cyfansoddol

**<u>CYNGOR SIR GAR</u>**

**CYNGHORYDD ELWYN WILLIAMS**

**<u>DINAS A SIR ABERTAWE</u>**

**CYNGHORYDD CLIVE LLOYD**

**<u>CYNGOR DINAS CAERDYDD</u>**

**CYNGHORYDD CHRISTOPHER WEAVER**

**<u>CYNGOR SIR Y FFLINT</u>**

**CYNGHORYDD TED PALMER**

**<u>CYNGOR SIR GWYNEDD</u>**

**CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS**

**<u>CYNGOR SIR POWYS</u>**

**CYNGHORYDD PETER LEWIS**

**<u>CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF</u>**

**CYNGHORYDD MARK NORRIS**

**<u>CYNGOR BWRDEISDREF SIROL TORFAEN.</u>**

**CYNGHORYDD GLYN CARON**

# A G E N D A

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANT** | |
| **3.** | **LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 RHAGFYR 2020** | 5 - 12 |
| **4.** | **DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA** | 13 - 58 |
| **5.** | **CYNLLUN BUSNES 2021 - 2024** | 59 - 80 |
| **6.** | **CYNLLUN HYFFORDDIANT 2021/22** | 81 - 86 |
| **7.** | **CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN** | 87 - 92 |
| **8.** | **COFRESTR RISG CH1 ADOLYGIAD 2021** | 93 - 100 |
| **9.** | **ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL** | 101 - 110 |
| **10.** | **DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR** | 111 - 124 |
| **11.** | **ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 31 RHAGFYR 2020** | 125 - 146 |
| **12.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**<br>NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y PWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH. | |
| **13.** | **ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AT 31 RHAGFYR 2020** | 147 - 182 |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Iau, 10 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Caron (Cadeirydd)

**Cynghorwyr:**
P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer, J. Pughe Roberts, C. Weaver, a D.E. Williams.

**Roedd y swyddogion a ganlyn yn bresennol:**
C. Moore, Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor (Cyngor Sir Gâr)
L.R. Jones, Swyddog Monitro'r Cydbwyllgor (Cyngor Sir Gâr)
N. Aurelius, Prif Weithredwr Cynorthwyol - Adnoddau (Cyngor Sir Torfaen)
B. Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol (Rhondda Cynon Taf)
J. Dong, Dirprwy Swyddog A151 / Prif Swyddog Ariannol (Dinas a Sir Abertawe)
D. Edwards, Prif Swyddog Cyllid (CG)
C. Hurst, Rheolwr y Gronfa Bensiynau (Cyngor Sir Powys)
C. Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Cyngor Dinas Caerdydd)
D. Fielder, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
A. Parnell, Rheolwr Trysorlys a Buddsoddi Pensiwn (Cyngor Sir Gâr)
T. Williams, Uwch Swyddog Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Gâr)
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Gâr)
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol (Cyngor Sir Gâr)

**Hefyd wrth law fel sylwedyddion:**
D. Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi (Cyngor Gwynedd)
Y. Keitch, Prif Gyfrifydd (Rhondda Cynon Taf)
K. Cobb, Uwch Gyfrifydd (Dinas a Sir Abertawe)
A. Bull, Rheolwr Buddsoddiadau Pensiwn (Cyngor Sir Torfaen)

**Hefyd yn bresennol:**
A. Tookey, Link Fund Solutions
R. Thornton, Link Fund Solutions
K. Midl, Link Fund Solutions
J. Leggate, Russell Investments
S. Mandich, Russell Investments
T. Paik, Russell investments
F. Hope, Hymans Robertson
J. Wright, Hymans Robertson
C. Manser, BlackRock
J. Tait, BlackRock
K. Haynes, BlackRock

**Remote attendance - 10.25 yb - 12.35 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION ERAILL

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peredur Jenkins.

Hysbyswyd y Cydbwyllgor Llywodraethu y penodwyd y Cynghorydd Peredur Jenkins yn lle'r Cynghorydd John Pughe Roberts a diolchwyd i'r Cynghorydd Pughe Roberts am ei gyfraniadau. Gan fod y Cynghorydd Jenkins wedi anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod heddiw, roedd y Cynghorydd Pughe Roberts yn mynychu'r cyfarfod fel ei ddirprwy.

Croesawodd y Cydbwyllgor y Cynghorydd Ted Palmer i'w gyfarfod cyntaf o'r Cydbwyllgor Llywodraethu. Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Palmer wedi ymuno â'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn gynharach eleni ond nad oedd wedi medru mynychu'r cyfarfod diwethaf.

Llongyfarchodd y Cadeirydd bawb oedd ynghlwm â Phartneriaeth Pensiynau Cymru (PPC) am ennill gwobr Arloesedd yng Ngwobrau Buddsoddi 2020 Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (*LAPF)*, oedd yn cydnabod fod PPC wedi gwneud cam sylweddol o ran arloesi, gan fabwysiadu fframwaith "Gweithredu Portffolio Manylach" (EPI) o fewn ei gronfeydd ecwiti.

**2. DATGANIADAU O FUNDDIANT**

| | |
|---|---|
| G. Caron | Aelod o Gronfa Bensiynau Gwent Fwyaf;<br>Ei wraig yn aelod gohiriedig o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf;<br>Ei fab yng nghyfraith yn aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf; |
| P. Lewis | Aelod o Gronfa Bensiwn Powys; |
| C. Lloyd | Aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe; |
| M. Norris | Aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf; |
| E. Williams | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed. |

[Noder: Mae eithriad yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau sy'n galluogi aelod sydd wedi'i benodi neu'i enwebu i gorff perthnasol gan ei awdurdod i ddatgan y buddiant hwnnw ond i aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

**3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 MEDI 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 11 Medi 2020 fel cofnod cywir.**

**4. DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA**

Derbyniodd y Cydbwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn y meysydd allweddol a ganlyn:

- Llywodraethu;
- Sefydlu parhaus;

- Gwasanaethau gweithredwr;
- Cyfathrebu ac adrodd;
- Hyfforddiant a chyfarfodydd; ac
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd.

Mewn ymateb i ymholiad, hysbyswyd y Cydbwyllgor fod trafodaethau cychwynnol ar adolygu contract y Gweithredwr wedi cael eu cynnal ac y byddai amserlen yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Awdurdod Lletya.**

**5. COFRESTR RISG Ch4 ADOLYGIAD 2020**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor ar Adolygiad Cofrestr Risg Ch4. Dywedwyd y cymeradwywyd y Gofrestr Risg cychwynnol gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020 ac roedd is-grŵp Cofrestr Risg y Gweithgor Swyddogion yn adolygu'r Gofrestr Risg pob chwarter. Roedd y prif newidiadau a welwyd yn yr adolygiad cyntaf yn ymwneud yn bennaf â'r adran Buddsoddi a Pherfformiad.

Mewn ymateb i ymholiad ar wasanaethau'r Gweithredwr (Risg G.12), hysbyswyd y Cydbwyllgor fod trafodaethau cychwynnol yn awgrymu nad oedd y risg yn berthnasol i PPC ac y byddai'r Cydbwyllgor yn derbyn mwy o ddiweddariadau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r addasiadau i'r Gofrestr Risg.**

**6. ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor ar Adolygiadau Polisi Blynyddol y Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu. Hysbyswyd y Cybwyllgor fod y Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu presennol wedi cael eu cymeradwyo ym mis Rhagfyr 2019. Roedd y Gweithgor Swyddogion (GS) wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisïau hyn ac wedi gwneud addasiadau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo y Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu wedi'u diweddaru.**

**7. ADOLYGU'R POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL A DIWEDDARIAD AR GYNNYDD**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor ar Adolygu'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol a Diweddariad Cynnydd Blynyddol. Dywedwyd fod y Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) wedi cael ei gymeradwyo ym mis Medi 2019. Roedd y Gweithgor Swyddogion (GS) wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi BC ac wedi gwneud addasiadau i adlewyrchu'r datblygiadau yn y 12 mis diwethaf.

Roedd diweddariad blynyddol ar gynnydd wedi'i gynnwys fel atodiad i'r Polisi BC, oedd yn rhoi asesiad manwl o'r cynnydd a gafwyd mewn sawl maes allweddol, yn cynnwys Hinsawdd Risg, Pleidleisio ac Ymgysylltu, Hyfforddiant ac Ymgynghori, ffurfio'r Is-grŵp BC a'r cynllun gwaith BC am y 12 mis nesaf.

Gwnaed awgrymiad y gallai fod yn fuddiol cael cynrychiolaeth wleidyddol ar yr Is-grŵp. Dywedodd Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor y gallai fod yn bosibl ystyried rhoi aelodau Arweiniol yn eu lle ar gyfer meysydd gwaith penodol y gellid ymgynghori â hwy ar feysydd gwasanaeth pwrpasol, ond byddai angen ystyried hyn ymhellach.

**PENDERFYNWYD**

**7.1. Cymeradwyo'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol sydd wedi'i ddiweddaru;**

**7.2. Nodi'r Diweddariad Cynnydd Blynyddol, yn cynnwys sefydlu Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC.**

## 8. POLISI HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor ar Adolygu'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol a Diweddariad Cynnydd Blynyddol. Dywedwyd fod y Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) wedi cael ei gymeradwyo ym mis Medi 2019. Roedd y Gweithgor Swyddogion (GS) wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi BC ac wedi gwneud addasiadau i adlewyrchu'r datblygiadau yn y 12 mis diwethaf.

Roedd diweddariad blynyddol ar gynnydd wedi'i gynnwys fel atodiad i'r Polisi BC, oedd yn rhoi asesiad manwl o'r cynnydd a gafwyd mewn sawl maes allweddol, yn cynnwys Hinsawdd Risg, Pleidleisio ac Ymgysylltu, Hyfforddiant ac Ymgynghori, ffurfio'r Is-grŵp BC a'r cynllun gwaith BC am y 12 mis nesaf.

Wrth ateb ymholiad, hysbyswyd y Cydbwyllgor y gellid ystyried cynrychiolaeth wleidyddol ar is-grwpiau BC, er enghraifft, wrth enwebu Aelodau Arweiniol Cydbwyllgor ar bynciau penodol.

**PENDERFYNWYD**

**7.1. Cymeradwyo'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol sydd wedi'i ddiweddaru;**

**7.2. Nodi'r Diweddariad Cynnydd Blynyddol, yn cynnwys sefydlu Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC.**

## 9. POLISI PLEIDLEISIO

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor ar y Polisi Pleidleisio. Hysbyswyd y Cydbwyllgor fod Robeco wedi cael ei benodi i ddarparu’r Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu'r Bartneriaeth ym mis Mawrth 2020. Wedi iddo gael ei fabwysiadu gan y Cydbwyllgor, byddai modd datblygu polisi pleidleisio Robeco a'i deilwra'n benodol i'r PPC a'i Awdurdodau Cyfansoddol dros y 12 mis nesaf.

Mewn ymateb i ymholiad am wrthdaro posib gyda rhybuddion pleidleisio LAPFF, cynghorwyd yr Aelodau fod yr is-grŵp BC wedi nodi'r potensial am wrthdaro mewn amgylchiadau cyfyng iawn ac y byddai Robeco yn dwyn unrhyw wahaniaethau i sylw'r PPC.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi Pleidleisio.**

## 10. CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN

Ystyriodd y Cydbwyllgor adroddiad ar Gynrychiolaeth Aelodau'r Cynllun. Hysbyswyd y Cydbwyllgor ei fod yn gydbwyllgor oedd wedi'i gyfansoddi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac felly ni allai Cynrychiolwyr Aelodau ond ymuno â'r Cydbwyllgor fel Aelodau Cyfetholedig heb yr hawl i bleidleisio. Er mwyn i hyn fedru digwydd, byddai angen addasu'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) a byddai angen mynd â'r addasiadau i bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol am gymeradwyaeth. Byddai'r GS yn medru paratoi manylion y person a'r broses ddethol i sicrhau bod gan y person enwebedig y wybodaeth a'r profiad priodol i ymgymryd â'r rôl.

**PENDERFYNWYD**

**10.1. Cymeradwyo bod darpariaeth ar gyfer cynrychiolydd aelod o gynllun y bwrdd pensiwn (heb bleidlais) ar y Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLl);**

**10.2. Cymeradwyo gofyn i bob Awdurdod Cyfansoddol gadarnhau cynnwys cynrychiolydd aelodau cyfetholedig ar y CBLl ac y gwneir y diwygiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA);**

**10.3. Cytuno bod yr GS yn paratoi manyleb person a phroses ddethol i'w cyflwyno i gyfarfod o'r CBLl yn y dyfodol i'w cymeradwy'n ffurfiol.**

## 11. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR

Derbyniodd y Cydbwyllgor gyflwyniad ar gynnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru yn y meysydd allweddol a ganlyn:

- Daliannau Presennol y Gronfa;
- Y Cynnydd ar Lansio Cronfeydd;
- Ymgysylltu Corfforaethol a Rhannu'r Wybodaeth Ddiweddaraf

Nododd y Cydbwyllgor fod lansiad yr Is-grŵp Incwm Sefydlog wedi'i gwblhau. O ran yr is-gronfa Marchnadoedd Datblygol, disgwyliwyd i'r dyddiad lansio gael ei ohirio tan fis Gorffennaf 2021 yn sgil gwaith manwl gan y *Depositary* ar y model troshaen carbon.

**PENDERFYNWYD derbyn Diweddariad y Gweithredwr.**

## 12. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 30 MEDI 2020

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad ar yr Adroddiadau Perfformiad fel ar 30 Medi 2020. Nodwyd cywiriad i'r Crynodeb Gweithredol cyhoeddedig (t.112-113), oedd yn dangos tanberfformiad i Gronfa Cyfleoedd y DU. Dylid tynnu'r cromfachau o amgylch y ffigwr Gwarged Adenillion, oedd yn arwain at berfformiad gwell o 1.33% gros a 0.95% net.

Roedd is-gronfeydd eraill wedi perfformio'n well / perfformio'n waeth na'u meincnodau, fel a ganlyn:

- Roedd Cyfleoedd Byd-eang wedi perfformio 0.43% gros / 0.06% net yn well na'r meincnod;
- Roedd Twf Byd-eang wedi perfformio 0.22% (gros) yn well na'r meincnod / 0.22% yn waeth na'r meincnod;

- Bondiau Llywodraeth Byd-eang wedi perfformio 0.33% gros / 0.30% net yn waeth na'r meincnod;
- Roedd Credyd Byd-eang wedi perfformio 0.01% gros / 0.03% net yn waeth na'r meincnod;
- Roedd Credyd Aml-ased wedi perfformio 0.77% gros / 0.83% net yn waeth na'r meincnod;
- Roedd Credyd y DU wedi perfformio 2.77% gros / 2.79% net yn waeth na'r meincnod;

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiadau Perfformiad yr is-gronfeydd a ganlyn fel ar 30 Medi 2020:**

**12.1. Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:**
**12.2. Cronfa Twf Byd-eang:**
**12.3. Cronfa Cyfleoedd Ecwiti'r DU:**
**12.4. Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang;**
**12.5. Cronfa Credyd Byd-Eang;**
**12.6. Cronfa Credyd Aml-ased;**
**12.7. Cronfa Credyd y DU.**

**13. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem a ganlyn gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A o'r Ddeddf.**

**14. ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AT 30 MEDI 2020**

**Ar sail prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng Nghofnod 13 uchod, y dylid ystyried y mater hwn yn breifat gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o achosi niwed i Bartneriaeth Pensiynau Cymru drwy amharu ar drafodaethau.**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor ar Fenthyca Gwarannau Byd-eang.

**PENDERFYNWYD nodi'r Adolygiad Benthyca Gwarannau Byd-eang fel ar 30 Medi 2020**.

**15. DARPARWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**Ar sail prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng Nghofnod 13 uchod, y dylid ystyried y mater hwn yn breifat gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o achosi niwed i Bartneriaeth Pensiynau Cymru drwy danseilio'r broses gaffael cyn i'r contract gael ei gyflwyno'n ffurfiol ar ôl y cyfnod segur statudol.**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor ar y Contract Ymgynghorydd Cyfreithiol.

**PENDERFYNWYD penodi bidiwr 1 fel y bidiwr dewisol ar gyfer Darparwr Gwasanaethau Cyfreithiol Partneriaethau Pensiwn Cymru, yn amodol ar gwblhau'r cyfnod segur a chwblhau'n derfynol y Contract Darparwr Gwasanaethau Cyfreithiol.**

**16. ADRODDIAD DADANSODDIAD ÔL-BONTIO - INCWM SEFYDLOG**

**Ar sail prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng Nghofnod 13 uchod, y dylid ystyried y mater hwn yn breifat gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o achosi niwed i Bartneriaeth Pensiynau Cymru drwy danseilio sefyllfa fasnachol rheolwyr cronfeydd.**

Ystyriodd y Cydbwyllgor adroddiad ar Ôl-bontio Masnach Incwm Sefydlog.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Ôl-bontio Incwm Sefydlog.**

____________________________ ______________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**
**PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**24 MAWRTH 2021**

# DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya**

**RHESYMAU:**

Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd


| | | |
|---|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Chris Moore** | **Swydd:**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **Rhif Ffôn: 01267 224160**<br><br>**E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 24 MAWRTH 2021

| DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA | |
|---|---|
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Cymeradwywyd Cynllun Busnes PPC 2020/21 ar 12 Mawrth 2020. Atodir diweddariad i Chwarter 4 sy'n dangos cynnydd PPC o ran adrannau'r Cynllun Gwaith, y Gyllideb a'r Buddsoddiadau.<br><br>Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:<br>• Llawlyfr Llywodraethu a Chynllun Busnes<br>• Gweithio â Robeco, darparwyr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu'r WPP i gwblhau gofynion adrodd<br>• Is-Grwpiau'r OWG:<br>    o Is-grŵp Marchnadoedd Preifat<br>    o Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol<br>    o Is-grŵp Cofrestr Risg<br><br>Camau nesaf / Blaenoriaethau:<br>• Lansio'r Is-gronfa Marchnadoedd Datblygol<br>• Parhau â gwaith yr is-grŵp Marchnadoedd Preifat<br>• Cwblhau cau cyfrifon diwedd blwyddyn 2020/21<br>• Ffurfio Adroddiad Blynyddol ac Enillion Blynyddol 2020/21<br><br>Meysydd allweddol eraill:<br>• Hyfforddiant - mae sesiynau hyfforddi rhithiol wedi parhau dros y chwarter diwethaf .<br>• Gwefan - mae'r wefan yn parhau i gael ei ddiweddaru gyda pholisïau sydd wedi'u cymeradwyo, datganiadau i'r wasg a manylion lansio'r is-gronfeydd. | |
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

## GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb | Cyfreithiol | Cyllid | Materion Rheoli Risg | Goblygiadau Staffio |
|---|---|---|---|---|
| **OES** | **DIM** | **DIM** | **DIM** | **DIM** |

**Polisi**

Bydd y dogfennau polisi a gweithdrefnau yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |



# Partneriaeth Pensiwn Cymru

# Cynllun Busnes

# 2020 -2021

# Adolygiad Ch4

## Llywodraethu

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Datblygu Polisi Risg Hinsawdd | Do | Amh |
| • Datblygu Polisi Gwrthdaro Buddiannau | Do | Amh |
| • Datblygu Polisi Pleidleisio'r Bartneriaeth | Do | Amh |
| • Llunio Llawlyfr Llywodraethu'r Bartneriaeth | Do | Amh |
| • Llunio Cofrestr Risg i'r Bartneriaeth | Do | Amh |
| • Cynnal adolygiad blynyddol o Gynllun Busnes y Bartneriaeth a'i ddiwygio | Yn mynd rhagddo | Cyflwyno'r papur gerbron CBLl mis Mawrth 2021 am gymeradwyaeth |
| • Adolygiad blynyddol o'r polisi Buddsoddi Cyfrifol | Do | Amh |

## Sefydlu Parhaus

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Lansio'r gyfran ecwiti Marchnadoedd Datblygol | Yn mynd rhagddo | Dyddiad lansio wedi'i ohirio tan fis Medi 2021 |
| • Lansio'r Is-gronfeydd Incwm Sefydlog | Do | Amh |
| • Lansio'r Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat | | Wedi'i ohirio hyd 2021-2022 |

## Gwasanaethau Gweithredwr

| Gwaith I'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Llunio Fframwaith Trosolwg o'r Gweithredwr i'r Bartneriaeth | Yn mynd rhagddo | |
| • Adolygu contract y Gweithredwr | Yn mynd rhagddo | |
| • Adolygu a datblygu adroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Gweithredwr | Yn mynd rhagddo | |

## Cyfathrebu, Hyfforddi ac Adrodd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Datblygu adroddiadau perfformiad y Rheolwr Buddsoddiadau, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a risg newid hinsawdd | Yn mynd rhagddo | Yn mynd rhagddo - Mae'r Is-grŵp BC yn llunio Adroddiad Monitro Buddsoddi Cyfrifol y PPC ar hyn o bryd |
| • Llunio cynllun hyfforddi blynyddol y Bartneriaeth | Yn mynd rhagddo | Cyflwyno'r papur gerbron CBLl mis Mawrth 2021 am gymeradwyaeth |
| • Llunio Newyddlen Flynyddol y Bartneriaeth | Do | Diweddariad Blynyddol wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2020 |

## Adnoddau, cyllideb a ffioedd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Penodi ymgynghorydd cyfreithiol | Do | N/A |
| • Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu | Do | N/A |
| • Llunio Cyllideb Flynyddol y Bartneriaeth | Yn mynd rhagddo | Rhan o'r Cynllun Busnes sy'n cael ei gyflwyno gerbron CBLl mis Mawrth 2021 |
| • Adolygu a Monitro Ffïoedd (gan gynnwys Link a Russell) | Yn mynd rhagddo | |

## Cynllun Hyfforddi

Pynciau hyfforddi i gael eu cwblhau yn ystod 2020-2021 yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Hyfforddiant 2020-2021 a'r cynnydd hyd yma.

| | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Rheoli Gwrthdaro Buddiannau | Do - Mehefin 2020 | |
| • Monitro gan y Gweithredwr | | Trefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2021 |
| • Metrigau perfformiad (gan gynnwys metrigau Incwm Gweddilliol) | Do - Hydref 2020 | |
| • Cynnydd Cronfeydd Cyfun Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol eraill | Do - Tachwedd 2020 | |
| • Cyfleoedd i Gydweithio | Do - Tachwedd 2020 | |
| • Risg Hinsawdd | Do - Mehefin 2020 | |
| • Dosbarthu Asedau - Dulliau gwahanol (Marchnadoedd Preifat) | Do - Hydref 2020 | |
| • Cofnodi Penderfyniadau | Do – Chwefror 2021 | |
| • Adnabod Gwersi i'w Dysgu | Do – Chwefror 2021 | |
| • Gofynion Tryloywder | Do – Chwefror 2021 | |
| • Gweithredu Canllawiau a Rheoliadau | Do – Chwefror 2021 | |

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant Robeco ym mis Medi a mis Hydref 2020 hefyd.

Mae'r holl hyfforddiant uchod sydd wedi'i gynnal hyd yn hyn wedi cael ei ymestyn i gynnwys aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau ac mae pob sesiwn hyfforddiant wedi cael ei chynnal yn rhithiol.

## Cyllideb

Adroddiad Monitro Cyllideb 2020-2021:

| | **Cyllideb 2020 - 2021 £000** | **Rhagolwg 2020 - 2021 £000** | **Amrywiant 2020 - 2021 £000 (Gweler isod)** |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lletya * | 181 | 148 | 33 |
| Ymgynghorwyr Allanol * | 580 | 580 | 0 |
| **CYFANSWM i'w ail-godi** | **761** | **728** | **33** |
| | | | |
| Gwasanaethau Gweithredwr ** | 27,557 | 24,819 | 2,738 |
| **CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau** | **27,557** | **24,819** | **2,738** |

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o'r wyth o Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).*

**Amrywiant:**

- Awdurdod Lletya - Swydd Cyfrifydd Cynorthwyol yn wag a thanwariant ar gostau teithio a chynhaliaeth Covid 19
- Gwasanaethau Gweithredwr - Oedi wrth lansio is gronfeydd Incwm Sefydlog a Marchnadoedd Datblygol

## Is-gronfeydd Ecwiti

**[*Cronfa Twf Byd-eang*]**

**Rheolir gan: Link**

**Gwerth y Portffolio: £2 biliwn**

**[*Cronfa Cyfleoedd Byd-eang*]**

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £2 biliwn**

**[*Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol*]**

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn**

- Lansiad yr is-gronfa Marchnadoedd Datblygol wedi'i ohirio hyd fis Medi 2021

## Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

**[*Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt*]**

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.4 biliwn**

**[*Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang*]**

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn**

**[*Cronfa Credyd Aml-ased*]**

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn**

**[*Cronfa Credyd Byd-Eang*]**

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.8 biliwn**

**[*Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol*]**

**Rheolir gan: Link**

**Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn**

Partneriaeth Pensiwn Cymru

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



# Partneriaeth Pensiwn Cymru

# Llawlyfr Llywodraethu

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 5 |
| Amcanion y PPC | 6 |
| Credoau'r PPC | 7 |
| Strwythur ac Egwyddorion Llywodraethu | 8 |
| Rolau a Chyfrifoldebau | 11 |
| Polisïau | 22 |
| Arferion a Phrotocolau | 26 |
| Manylion Cyswllt | 32 |
| Atodiadau: | |
| a) Cytundeb Rhwng Awdurdodau | 33 |
| b) Matrics Llywodraethu | 69 |
| c) Polisi Risg | 72 |
| d) Buddsoddiad Cyfrifol | 79 |

| | |
|---|---|
| e) Polisi Risg Hinsawdd | 85 |
| f) Polisi Pleidleisio | 89 |
| g) Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol - Cylch Gorchwyl | 103 |
| h) Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Gweithdrefn | 104 |
| i) Polisi Cyfathrebu | 109 |
| j) Polisi Hyfforddi | 115 |

# Cyflwyniad

Croeso i Lawlyfr Llywodraethu Bartneriaeth Pensiwn Cymru ('PPC').

Diben y llawlyfr hwn yw rhoi trosolwg manwl o strwythur, fframwaith a pholisïau llywodraethu'r PPC. Mae’r llawlyfr hwn yn casglu'r holl fanylion hanfodol ynghylch sut mae’r PPC yn cael ei lywodraethu, yn ogystal â mynegi’r rolau, y cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau y mae'r PPC wedi'u rhoi ar waith.

Un o brif amcanion y dogfennau yw gweithredu fel pwynt cyfeirio a all fod o fudd i bersonél y PPC, yn ogystal â phartïon allanol a allai fod eisiau dysgu mwy am sut y caiff y PPC ei lywodraethu. Mae'r PPC yn falch iawn o'r strwythur, y fframwaith a'r gweithdrefnau llywodraethu y mae wedi'u rhoi ar waith ac mae'n awyddus i fynegi a dangos y rhain i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol. Diben y llawlyfr hwn yw darparu tryloywder llawn ar faterion llywodraethu’r PPC. Drwy ddarparu'r tryloywder hwn, mae'r PPC yn gobeithio y bydd pobl yn gallu deall yn llawn sut mae'n gweithredu ac y bydd y ddealltwriaeth hon yn gwella'r lefelau ymgysylltu rhwng y PPC a phob parti.

Ein gobaith hefyd yw y bydd y ddogfen hon yn cyflawni ail amcan - sef dangos pa mor ddifrifol y mae'r Cynllun yn cymryd materion llywodraethu. Mae'r PPC wedi ymrwymo'n llwyr i sefydlu strwythur llywodraethu cadarn ar gyfer hwyluso gweithgareddau pŵlio wyth Awdurdod Cyfansoddol Cymru. Mae'r PPC yn credu'n gryf y bydd llywodraethu da yn arwain at wneud penderfyniadau gwell, mwy o werth am arian ac yn bwysicaf oll canlyniadau gwell i randdeiliaid y PPC. Gobeithio y bydd y ddogfen hon yn rhoi dealltwriaeth gadarn i chi o:

- Pwy yw'r PPC, beth yw ein hamcanion a’n credoau sy'n ein harwain
- Sut mae'r PPC yn gweithredu, beth yw ein rolau a'n cyfrifoldebau
- Pa bolisïau a gweithdrefnau yr ydym yn eu dilyn ac yn cadw atynt hefyd.

Noder y bydd y ddogfen hon yn esblygu ac yn ddarostyngedig i ddiwygiadau parhaus wrth i'r PPC fireinio, adolygu a diweddaru ei drefniadau llywodraethu. Caiff y ddogfen hon ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu unrhyw newidiadau nodedig ym materion llywodraethu PPC, a chaiff ei diwygio hefyd i adlewyrchu diweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau sylfaenol PPC.

Mae'r llawlyfr hwn yn dwyn ynghyd holl drefniadau llywodraethu PPC gan gynnwys y Cytundeb Rhwng Awdurdodau ('IAA') sy'n sylfaen i'r trefniadau llywodraethu hyn ac yn rhwymo'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eu hamcan cyffredin o ddarparu'r gorau o ran pŵlio buddsoddi er budd aelodau CPLIL, cyflogwyr sy'n cymryd rhan a threthdalwyr lleol.

Gobeithio y bydd y Llawlyfr Llywodraethu PPC hwn yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth i chi ac y bydd yn rhoi syniad i chi o sut mae'r PPC wedi'i strwythuro a'r modd y mae'n gweithredu. Mae croeso i chi gysylltu â ni, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 32, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth.

Yn gywir

Chris Moore

Swyddog Adran 151 yn yr Awdurdod Lletya (Cyngor Sir Caerfyrddin)

# Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru

Wedi'i sefydlu yn 2017, mae'r PPC yn gydweithrediad o'r wyth cronfa CPLlL (Awdurdodau Cyfansoddol) sy'n cwmpasu Cymru gyfan ac mae'n un o wyth cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol genedlaethol.

Mae gennym hanes hir, llwyddiannus o gydweithio, gan gynnwys enghreifftiau sy'n rhagddyddio menter pŵlio'r Llywodraeth. Rydym yn falch o'n hunaniaeth unigryw fel Cronfa – mae ein Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli ac yn rhychwantu Cymru gyfan. Gan ein bod yn atebol yn ddemocrataidd, yr ydym yn darparu'r gorau o lywodraethu a thryloywder cryf yn y sector cyhoeddus.

Mae ein model gweithredu wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg a sicrhau gwerth am arian. Penodwyd Gweithredwr cronfa allanol ac rydym yn defnyddio cynghorwyr allanol i ddod â'r arbenigedd gorau i gefnogi'r gwaith o redeg y Gronfa, ac mae hyn yn cynnwys Hymans Robertson sydd wedi'u penodi'n Ymgynghorwyr Goruchwylio'r PPC. Link Fund Solutions yw'r Gweithredwr ac maent wedi ffurfio partneriaeth â Russell Investments i ddarparu atebion rheoli buddsoddi effeithiol gyda'r nod o sicrhau rhwyd gref o berfformiad ffioedd ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae gennym weledigaeth a chytundeb ar y cyd ar y modd a'r cyflymder y cyflawnir y weledigaeth hon. Wyth Cronfa  CPLlL (Awdurdodau Cyfansoddol) Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

# Amcanion y PPC

Mae'r PPC yn falch o gynrychioli'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac mae'n cydnabod ei ddyletswydd i sicrhau bod anghenion a gofynion yr holl randdeiliaid  yn cael eu diwallu. Mae'r PPC, drwy ymgynghori â phob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, wedi llunio rhestr o brif amcanion a gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Darparu trefniadau pŵlio sy'n caniatau i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle bo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni arbedion cost materol i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan gan wella neu gynnal perfformiad buddsoddiadau ar ôl ffioedd.
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle i oruchwylio gweithgareddau'r Gronfa.
- Gweithio'n agos gyda chronfeydd eraill er mwyn arhcwilio'r buddion y gall holl randdeiliaid yng Nghymru eu cael o ddatrysiadau pŵlio ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Cyflawni fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r deilliannau gorau i'w randdeilaid allweddol; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn medru defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynllun.

Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod bod eu cryfder yn deillio o'u credoau  cyffredin a'u gallu i gydweithio i gyflawni eu hamcanion unedig er budd holl randdeiliaid PPC.

# Credoau PPC

Mae Credoau'r PPC yn adlewyrchu natur gydweithredol a gwerthoedd cyffredin yr Awdurdodau Cyfansoddol, maent fel a ganlyn:

Rôl y PPC yw hwyluso a darparu llwyfan pŵlio y gellir gweithredu buddion yr Awdurdodau Cyfansoddol o'i fewn.

Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau gwell i randdeiliaid y PPC.

Mae cydweithio mewnol rhwng yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hanfodol i gyflawni amcanion y PPC. Gall cydweithio allanol hefyd fod yn fuddiol gydag arbedion cost a gwell deilliannau i randdeilaid.

Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau lliniaru Risg Hinsawdd effeithiol, law yn llaw ag ystyried a rheolaeth dystiolaethaol o faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ehangach, arwain at well deilliannau i randdeiliaid y PPC.

Mae cyfathrefu mewnol ac allanol effeithiol yn hanfodol i gyflawn amcanion y PPC.

•Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o wella adnoddau, gallu ac arbenigedd y PPC.

Bydd tryloywder cost a ffi yn cynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau a gwella deilliannau i randdeiliaid.

Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn helpu'r PPC a'i Awdurdodau Cyfansoddol i esblygu.

•Bydd ymagwedd hyblyg i strwythur cronfa'r PPC a'i ddulliau gweithredu yn galluogi i gronfa'r PPC addasu yn y dyfodol a pharhau i fodloni anghenion ei randdeiliaid.

Credoau'r PPC yw'r sylfaen ar gyfer fframwaith llywodraethu PPC ac fe'u defnyddiwyd i lywio holl weithgareddau a phenderfyniadau'r PPC, gan gynnwys ei amcanion a'i bolisïau.


# Strwythur ac Egwyddorion Llywodraethu

Mae'r PPC yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â rheoleiddio a chanllawiau. Rhaid inni sicrhau hefyd: bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n briodol; ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd yn ymdrechu i wella'n barhaus ac i gydymffurfio ag arfer gorau'r diwydiant.

Mae'r PPC yn manylu ar sut y mae'n ymdrin â phob agwedd ar Lywodraethu drwy ei Gytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA), sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Aelodau, ei Bwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r IAA yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau, gan ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae IAA y PPC i'w weld yn ei gyfanrwydd yn Atodiad  A. Yn unol â'i gred y dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid, mae'r PPC wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith, sydd wedi'i gynllunio i:

- Gyflawni ar ein amcanion
- Bod yn hyblyg ac yn addasol
- Arddangos ei ymrwymiad i'r safonau llywodraethu uchaf
- Bodloni anghenion ei randdeiliaid
- Cydweithio a chyfathrebu cyflymach o fewn y PPC
- Bod yn dryloyw
- Bod yn gost-effeithiol

Mae'r diagram isod yn dangos strwythur llywodraethu PPC.





Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol ar frig strwythur llywodraethu'r PPC. Maent yn cadw rheolaeth dros yr holl weithgarwch a gyflawnir gan y PPC ac yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Busnes y PPC, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith PPC, yn ogystal â'i Gredoau a'i Amcanion. Mae Cynllun Busnes PPC i'w weld ar ein gwefan. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwneud yn helaeth â phob agwedd ar strwythur llywodraethu PPC, tra bod Cyd-bwyllgor Llywodraethu a Gweithgor Swyddogion y PPC yn cynnwys cynrychiolwyr cynghorwyr etholedig a swyddogion o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn y drefn honno.

Fel y nodwyd eisoes, mae Cytundeb Rhwng Awdurdodau’r PPC yn amlinellu'r cyrff llywodraethu sy'n ffurfio strwythur llywodraethu PPC ac yn nodi sut mae'r cyrff hyn yn rhyngweithio â'i gilydd a rolau y mae pob un o'r cyrff hyn yn eu chwarae. Mae'r matrics penderfyniadau llywodraethu (Atodiad B) yn rhoi crynodeb cryno o'r gwahanol rolau, cyfrifoldebau a rhyngweithio rhwng holl bwyllgorau, grwpiau a chyflenwyr PPC. Yn benodol, mae'n dangos pa gorff llywodraethu sy'n gyfrifol am ba benderfyniadau

Mae'r Cynllun wedi creu nifer o bwyllgorau, grwpiau a rolau fel rhan o'i strwythur llywodraethu, ac mae eu creu wedi sicrhau bod y PPC wedi gallu darparu strwythur llywodraethu cadarn i'w randdeiliaid. Yn benodol, mae strwythur llywodraethu Cynllun Cymru yn ceisio cyflawni:

- Gwirio a chydbwyso niferus
- Ffynonellau amrywiol o farnau, arbenigedd a chyngor
- Proses gwneud penderfyniadau clir, tryloyw a democrataidd

Ochr yn ochr â'r strwythur llywodraethu hwn, mae'r PPC wedi datblygu fframwaith llywodraethu y gellir ei ddefnyddio i werthuso, categoreiddio a phriodoli adnoddau i ffrydiau gwaith parhaus. Mae fframwaith llywodraethu’r PPC wedi’i amlinellu isod, a nod y fframwaith yw sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i benderfyniadau allweddol a bod adnoddau'n canolbwyntio ar feysydd sydd fwyaf tebygol o gyfrannu at lwyddiant PPC yn y dyfodol:




Fel y dangosir yn y diagram uchod, mae'r fframwaith yn seiliedig ar yr egwyddor bod eich credoau, eich amcanion a'ch polisïau o'r pwys mwyaf wrth iddynt lywio'r holl waith a gweithgareddau y mae'r PPC yn ymgymryd â hwy. Mae'r broses o ffurfio ac adolygu Credoau, Amcanion a Pholisïau PPC yn cynrychioli cyfran gymharol fach o amser a gweithgarwch cyffredinol y PPC – fodd bynnag, mae ganddynt y potensial i gael yr effaith fwyaf ar y canlyniadau y gall y PPC eu darparu i'w randdeiliaid. Isod, rydym yn nodi'n fanylach y gwahanol Haenau o fframwaith llywodraethu'r PPC:




- Credoau, Amcanion Sylfaenol - Mae amcanion clir sydd wedi'u diffinio'n dda yn hanfodol i gyflawni llwyddiant yn y dyfodol
- Polisïau sy'n codio credoau ac amcaniony PPC ac yn gosod gofynion strategaeth a strwythur
- *E.e. Amcanion PPC, credoau PPC a pholisïau penodol megis POlisi Risg Hinsawdd PPC*

- Cytundeb ynghylch strwythur llywodraethu PPC, perthynas gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol a chyflenwyr trydydd parti (e.e. y Gweithredwr)
- Adnabod is-gronfeydd a datrysiadau buddsoddi angenrheidiol
- *E.e. IAA, Metrics Llywodraethu, Cytundeb Gweithredwr a chynigion is-gronfa*

- Penodi cyflenwyr a darparwyr gwasanaeth addas
- Ffurfio a gweithredu is-gronfeydd
- Adnabod dull o asesu rheolwyr buddsoddi ac ymagwedd at reolaeth
- *E.e. dewis o glustnodi ecwiti rhanbarthol, ansawdd credyd a hylifedd bondiau. Dewis o reolwyr, penderfyniad ar reolaeth gweithredol neu oddefol, mandadu canllawiau cyn buddsoddi.*

- Dull o weithredu'r newidiadau y cytunwyd arnynt a rheoli a monitro asedau'n barhaus
- Adnabod gwersi i'w dysgu a meysydd i'w gwella ar draws y pedair haen
- *E.e. asesiad goruchwylio'r gweithredwr o weithgarwch pontio, newidiadau i ganllawiau is-gronfa pan fydd wedi'i sefydlu eisoes.*

# Rolau a Chyfrifoldebau Llywodraethu

Ceir cyflwyniad byr i ddiben, aelodaeth a swyddogaeth Pwyllgorau, Grwpiau a Rolau'r PPC isod:

## Yr Awdurdodau Cyfansoddol

Fel y nodwyd eisoes, yr Awdurdodau Cyfansoddol yw elfen bwysicaf y PPC, maent nid yn unig yn cynrychioli sylfaenwyr y PPC, ond hefyd ei randdeiliaid allweddol. Ffurfiodd yr Awdurdodau Cyfansoddol Gyd-bwyllgor Llywodraethu'r PPC i oruchwylio ac adrodd ar y PPC. Cyn llunio'r JGC, cytunodd yr Awdurdodau Cyfansoddol y dylid cadw nifer o faterion gwneud penderfyniadau yn ôl i'r Awdurdodau Cyfansoddol, tra gellid ystyried bod y gweddill yn faterion i Gyd-bwyllgor Llywodraethu'r PPC.

## Materion i'r Awdurdodau Cyfansoddol

Nodir y materion a gadwyd yn ôl i'r Awdurdodau Cyfansoddol yn Atodlen 2 i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Penodi, terfynu neu ddisodli'r Gweithredwr yn dilyn argymhelliad y Cyd-bwyllgor Llywodraethu
- Cymeradwyo Cynllun Busnes y PPC a chymeradwyo gwariant ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Busnes sy'n fwy na 30%
- Ffurfio, cymeradwyo neu ddiwygio strategaeth buddsoddi perthnasol pob Awdurdod Cyfansoddol
- Derbyn awdurdod gweinyddu newydd o fewn CPLlL i'r PPC fel Awdurdod Cyfansoddol
- Amendment or Termination of the IAA
- Pennu amseriad trosglwyddo asedau a ddelir gan gronfa CPLlL y maent yn awdurdod gweinyddu ar ei chyfer i mewn i'r PPC a'r cronfeydd neu'r is-gronfeydd a weithredir gan y Gweithredwr
- Newid materol i natur y Contract Gweithredwr a chymeradwyo unrhyw feini prawf gwerthuso neu sgorio ar gyfer caffael Gweithredwr newydd

## Cyd-bwyllgor Llywodraethu

Cafodd Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru (JGC) ei ffurfioli ym mis Mehefin 2017 ac mae'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r JGC yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Rhaid i'r aelod etholedig fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw a Phwyllgor Pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw. Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu cylchdroi'n flynyddol.

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y JGC ddarpariaeth ar gyfer cynrychiolydd cynllun bwrdd pensiwn cyfetholedig (di-bleidlais) ar y JGC.

Mae'r JGC yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o bŵlio buddsoddiadau wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Nodir cyfres lawn o gyfrifoldebau'r JGC yn Atodlen 3 (Materion y JGC) ac Atodlen 4 (Cylch Gorchwyl y JGC) y Cytundeb Rhwng Awdurdodau, crynodeb byr o Faterion y JGC a'i Gylch Gorchwyl isod.

## Materion y JGC

- Gwneud argymhelliad ar benodi, disodli neu derfynu'r Gweithredwr i'r Awdurdodau Cyfansoddol
- Penodi a disodli darparwyr gwasanaeth ac ymgynghorwyr (ac eithrio'r Gweithredwr)
- Cymeradwyo creu neu derfynu cerbydau wedi'u pŵlio ac is-gronfeydd gan y Gweithredwr
- Cymeradwyo newidiadau i Gontract y Gweithredwr nad ydynt yn faterol i natur y Contract
- Delio â rheolaeth barhaus gyffredinol y Cydweithrediad Pŵlio
- Cysylltu â Byrddau Pensiwn lle bo hynny'n briodol
- Pennu'r modd gorau o strwythurau buddsoddi amgen ar gyfer asedau lle nad yw is-gronfa yn cael ei darparu gan y Gweithredwr

## Cylch Gorchwyl y JGC

Cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Llywodraethu yw:

- Gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar derfynu Contract y Gweithredwr lle ystyrir bod y perfformiad yn annerbyniol;
- Sicrhau bod ystod briodol o is-gronfeydd ar gael i ganiatáu i'r Awdurdodau Cyfansoddol gyflawni eu nodau buddsoddi strategol;
- Monitro perfformiad y Gweithredwr yn erbyn y gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt;
- Adrodd ar berfformiad y Gronfa Fuddsoddi, ei chostau a gweithgareddau eraill;
- Edrych ar briodoldeb y strwythurau presennol, gan gynnwys nifer a gwneuthuriad is-gronfeydd;
- Cysylltu â'r Gweithredwr ar benodi cyflenwyr, er enghraifft dewisiadau'r rheolwr neu benodi adneuon;
- Cysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr ystod briodol o is-gronfeydd sydd i'w darparu yn y Gronfa Fuddsoddi;
- Ail-edrych ar bolisïau mewn perthynas â materion moesegol, cymdeithasol a llywodraethu a hawliau pleidleisio a, lle y bo'n briodol, gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol;
- Gweithredu unrhyw brosesau neu bolisïau a ddyrennir iddo o fewn yr IAA;
- Argymell cynllun lefel uchel ar gyfer trosglwyddo asedau i'r pŵl;
- Sicrhau bod OWG yn gweithredu o fewn ei gylch gwaith;
- Darparu unrhyw ddadansoddiad neu sylwebaeth ar gyfrifon blynyddol i'r Awdurdodau Cyfansoddol;
- Monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd polisïau a chychwyn adolygiadau lle bo angen;
- Cyflawni a monitro parhaus yn erbyn amcanion, Cynllun Busnes a chyllidebau'r Cydweithrediad Pŵlio;
- Cymeradwyo ymatebion gan y Cydweithrediad Pŵlio mewn perthynas ag ymgynghoriadau neu faterion eraill yr ystyrir eu bod yn briodol;
- Ceisio cyngor gan gynghorwyr proffesiynol ac awdurdodedig a rheoledig lle bo angen;
- Cytuno ar y Cynllun Busnes i'w gyflwyno i'r Awdurdodau Cyfansoddol i'w gymeradwyo;
- Adrodd i'r Awdurdodau Cyfansoddol bob chwarter ar y materion sydd o fewn eu cylch gwaith;
- Cytuno ar feini prawf ar gyfer gwerthuso ceisiadau neu dendrau ar gyfer unrhyw gaffael (ac eithrio'r Gweithredwr) i'w cyflwyno i'w cymeradwyo gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae'r PPC yn ymfalchïo mewn bod yn agored ac yn dryloyw a gwelir tystiolaeth o hyn yn y ffaith bod JGCs yn cael eu gwe-ddarlledu'n gyhoeddus, tra bod agendâu a chofnodion hefyd ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'r PPC wedi rhoi'r gweithdrefnau cyfarfod canlynol ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd JGC yn gweithredu mewn modd effeithlon, tryloyw a democrataidd.

## Gweithdrefn Cyfarfod (JGC)

- Bydd yr holl agendâu, adroddiadau a chofnodion yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf;

- Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am gynnal cyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Aelodau i fynegi eu dymuniad i siarad yn eu tro. Cynhelir yr holl drafodaethau a dadleuon drwy'r Cadeirydd a chaiff y Cadeirydd roi trafodaeth i bleidlais ar unrhyw adeg pan ystyriant fod pob Aelod wedi cael cyfle teg i siarad;

- Os yw unrhyw eitem sydd i'w thrafod yn wybodaeth eithriedig, bydd y Cadeirydd yn cynnig eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer cyfnod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno. Nid oes angen i gynigion i eithrio'r wasg a'r cyhoedd gael eu heilio a chânt eu pennu drwy bleidlais fwyafrif syml o'r Aelodau'n sy'n bresennol. Gall y Cadeirydd wahodd unrhyw un i aros yn y cyfarfod os yw'n ystyried ei bod hi'n angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny a thybir bod unrhyw aelodau o'r OWG sy'n bresennol wedi'u gwahodd i aros oni bai bod y Cadeirydd yn nodi'n wahanol;

- Gall unrhyw un gael ei eithrio o gyfarfod neu ei orfodi i adael y cyfarfod os, ym marn y Cadeirydd, eu bod yn achosi aflonyddwch i rediad y cyfarfod ac nad ydynt wedi ymwrthod rhag gwneud hynny yn dilyn cais; neu lle mae unrhyw un yn aflonyddu gymaint y byddai ei ymddygiad, os caiff barhau, yn atal y cyfarfod rhag bwrw ymlaen mewn modd teg a derbyniol;

- Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig. Rhaid i bob cynnig gael ei eilio. Caiff cynigion a wrthwynebir eu cyflwyno i bleidlais;

- Caiff Aelod godi pwynt o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn eu clywed ar unwaith. Rhaid i'r Aelod nodi'r ddarpariaeth neu'r gyfraith neu reoliadau a'r ffordd y mae o'r farn sydd wedi'i dorri. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ar y mater yn derfynol. Gall y Cadeirydd gael cyngor ar y pwynt o drefn gan y swyddogion priodol;

- Bydd y Cadeirydd yn ceisio consensws lle bynnag y bo modd, ond os bydd angen pleidlais, bydd gan bob aelod sy'n bresennol un bleidlais a bydd y pleidleisio drwy ddangos dwylo. Os bydd pleidlais gyfartal, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Bydd pob penderfyniad yn cael ei bennu gan fwyafrif syml.

## Gweithgor Swyddogion

Sefydlwyd Gweithgor Swyddogion PPC (OWG) gyda'r diben o roi cymorth a chyngor i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r grŵp yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Ceir trosolwg o rolau a chyfrifoldebau'r OWG isod:

- Gwneud cynnig i'r JGC ar:
  - Caffael cymorth allanol i fodloni gofynion y PPC;
  - Trefniadau llywodraethu;
  - Y ffordd fwyaf priodol o gael mynediad at wahanol fathau o asedau – gan gynnwys strwythur a nifer a gwneuthuriad is-gronfeydd;
  - Cynlluniau pontio lefel uchel ar gyfer trosglwyddo asedau i bŵlio'r Gronfa Fuddsoddi;
- Herio a chyfrannu at ddatblygu'r Pŵl a helpu'r JGC i gyflawni ei amcanion;
- Gwneud argymhellion i'r JGC ar benodi, disodli neu derfynu'r Gweithredwr;
- Monitorio ac adolygu perfformiad y Gweithredwr;
- Derbyn adroddiadau ar berfformiad yr asedau ac adrodd i'r JGC;
- Adrodd yn allanol ar y Cydweithrediad Pŵlio a'i gynnydd;
- Cysylltu â chronfeydd eraill yn ôl y gofyn;
- Ystyried, argymell a drafftio'r Cynllun Busnes i'w ystyried gan y JGC;
- Datblygu a pharhau i adolygu'r rhaglen hyfforddi sydd i'w chyflwyno i Aelodau
- Ceisio cyngor gan gynghorwyr proffesiynol sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan awdurdodau cymwys;
- Rheoli'r broses gaffael ar gyfer caffael unrhyw Weithredwr newydd;
- Unrhyw faterion eraill y mae'r JGC wedi'u dirprwyo i'r OWG.

Mae'r OWG yn cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Cadeirydd yr OWG yw Chris Moore, Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Caerfyrddin (Awdurdod Lletya).

Mae gan yr OWG, mewn modd tebyg i'r JGC, hanes cryf o ran ymgysylltu a phresenoldeb. Mae o leiaf un cynrychiolydd o bob Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol yng nghyfarfodydd OWG ac mae'n gyffredin gweld y Swyddog Adran 151 a'r Ymarferydd ar gyfer pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol.

Mae darparwyr a chynghorwyr allanol y PPC hefyd yn mynychu cyfarfodydd OWG ac yn rhoi cymorth neu gyngor pan fo angen. Ar hyn o bryd mae Gweithredwr y Cynllun, y Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddi a'r Ymgynghorydd Goruchwylio yn mynychu holl gyfarfodydd yr OWG. Gwahoddir partïon eraill fel cynghorwyr tryloywder costau, Robeco, LAPFF a chynrychiolwyr Archwilio Cymru hefyd i fynychu OWG pan fo angen.

Yn ogystal â chyfarfodydd yr OWG, mae aelodau'r OWG yn cymryd rhan mewn 2 awr o gyfarfodydd rhithwir bob pythefnos. Defnyddir y cyfarfodydd rhithwir i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi rhwng cyfarfodydd ffurfiol yr OWG, fe'u defnyddir hefyd i ddatblygu gwaith rhwng cyfarfodydd yr OWG. Mae'r galwadau pythefnosol hyn yn fecanwaith amhrisiadwy ar gyfer datblygu gwaith a meithrin cydweithio rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol a chyflenwyr PPC.

Mae'r PPC hefyd wedi sefydlu nifer o 'is-grwpiau', ac mae'r is-grwpiau hyn yn cael eu llunio'n gyffredinol i fwrw ymlaen neu ddatblygu rhai elfennau o gynllun gwaith y PPC. Mae'r holl is-grwpiau wedi'u cynnwys o is-adran o'r OWG ac maent yn gyfrifol am adrodd yn ffurfiol yn ôl i'r OWG cyfan. Mae is-grwpiau presennol PPC yn cynnwys:

- Yr Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol – sy'n gyfrifol am lunio a chyflawni Cynllun Gwaith Buddsoddi Cyfrifol y PPC yn ogystal â chysylltu â Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu'r PPC.
- Yr Is-grŵp Risg – sy'n gyfrifol am fonitro, cynnal a gweithredu Cofrestr Risg a Pholisi'r PPC.
- Is-grŵp y Farchnad Breifat – sy'n gyfrifol am lunio a datblygu Is-Gronfa(eydd) Marchnad Breifat y PPC.
- Yr Is-grwpiau Caffael – sy'n gyfrifol am ymarfer caffael.

## Awdurdod Lletya

Penodwyd Cyngor Sir Caerfyrddin yn Awdurdod Lletya Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r Awdurdod Lletya yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r JGC a'r OWG, a chysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran holl gronfeydd CPLIL yng Nghymru. Nodir rôl yr Awdurdod Lletya yn Adran 6 yr IAA a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:

- Gweithredu fel yr awdurdod cyflogi ar gyfer unrhyw staff sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â gwneud gwaith ar ran y PPC;
- Bod yn bwynt cyswllt at ddibenion rheoli'r PPC;
- Darparu adnoddau a chyfleusterau gweinyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r PPC;
- Darparu gwasanaethau llywodraethu a gweinyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r PPC;
- Darparu hyfforddiant i Aelodau i gefnogi eu rôl;
- Ymrwymo i gontractau, ar ran y PPC, ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau y mae'r PPC yn gofyn amdanynt;
- Cysylltu gyda'r Gweithredwr ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol a darparu unrhyw wasanaethau rheoli a chydgysylltu contractau sydd eu hangen;
- Darparu swyddogion sydd â chymwysterau a phrofiad priodol a fydd yn gweithredu fel prif ymgynghorwyr cyfreithiol ac ariannol y Gronfa. Bydd hyn yn cynnwys Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro i oruchwylio ac adolygu gweithrediad y Gronfa a phenderfyniadau'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar ran yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae rôl yr Awdurdod Lletya yn hanfodol i'r PPC, mae'n gyfrifol am reoli'r Pŵl o ddydd i ddydd ac mae'n cymryd perchnogaeth o reoli a datblygu gweithgareddau ac ymdrechion y PPC. Mae maint a natur y Pŵl yn golygu bod yr Awdurdod Lletya yn gyfrifol am ystod eang, sy'n newid yn barhaus, o weithgareddau a chyfrifoldebau, mae'r rhain yn amrywio o drefnu a hwyluso diwrnodau hyfforddi'r PPC i lunio a chyflwyno cyflwyniadau 'Diweddariad Pŵlio' y PPC i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Yr Awdurdod Lletya yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl gwestiynau sy'n ymwneud â'r PPC ac mae hefyd yn gyfrifol am gynnal dulliau cyfathrebu'r PPC (e.e. Gwefan a LinkedIn). Mae gan yr Awdurdod Lletya dîm mewnol y gall ddenu adnoddau ac arbenigedd ganddo i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau.

### Swyddog Adran 151

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r swyddog cyfrifol dros weinyddu materion y PPC o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros weinyddu'r PPC yn ariannol.

### Swyddog Monitro

Mae Rôl y Swyddog Monitro (Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith) yn cael ei chynnal ar hyn o bryd o fewn yr Awdurdod Lletya (Cyngor Sir Caerfyrddin). Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol am gynnal yr IAA i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol diweddaraf ac anghenion Llywodraethu y PPC. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r darpariaethau ar bob lefel. Mae'r Swyddog Monitro yn mynychu holl gyfarfodydd y JGC.

Mae'r Swyddog Monitro mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ragweithiol wrth gefnogi Aelodau a Swyddogion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol i gydymffurfio â'r gyfraith a gweithdrefnau’r PPC ei hun. Fel Pennaeth y Gwasanaeth sy'n bennaf gyfrifol am yr Uned Gwasanaethau Democratiaeth, mae'r Swyddog Monitro hefyd yn gyfrifol am gofnodi a chyhoeddi'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn ffurfiol.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Adran 151 yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cydbwyllgor Llywodraethu os yw o'r farn y bydd unrhyw gynnig yn arwain at fod yn anghyfreithlon.

## Darparwyr Allanol Cyfredol

Mae'r PPC yn credu y gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o wella adnoddau, galluoedd ac arbenigedd y PPC. Mae'r PPC wedi cynnal profion trylwyr ar y farchnad ac ymarferion caffael neu benodi cysylltiedig i gontractio'r cyflenwyr canlynol gan gredu y bydd y cyflenwyr hyn, ar hyn o bryd, yn gallu cynorthwyo'r PPC i sicrhau'r canlyniadau gorau a mwyaf cost-effeithiol i'w randdeiliaid. Sylwer bod y rhestr isod yn amlinellu darparwyr a chyflenwyr presennol y Cynllun, caiff y rhestr hon ei hadolygu'n barhaus a'i newid.

### Link Fund Solutions Ltd (Y Gweithredwr)

Mae'r PPC wedi cynllunio model gweithredu sy'n hyblyg ac yn gallu sicrhau gwerth am arian. Penodwyd Link Fund Solutions Ltd (Link) yn Weithredwr allanol a, gyda chefnogaeth Russell Investments, byddant yn cael y dasg o ddarparu atebion rheoli buddsoddi effeithiol a darparu rhwyd gref o berfformiad ffioedd ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol. Link yw darparwr Cynllun Cytundebol Awdurdodedig PPC ('ACS) sy’n mewnoli Is-gronfeydd buddsoddi'r PPC.

Mae'r Gweithredwr yn gwmni a awdurdodwyd gan yr FCA ac mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys:

- Gweithrediad o ddydd i ddydd a rheolaeth y buddsoddiadau/cydymffurfiaeth rheoleiddiol/risgiau;
- Rheoli / penodi trydydd partïon;

- Prynu a gwerthu cyfranddaliadau'r cerbyd buddsoddi cyfunol penagored; a
- Sicrhau prisio cyfranddaliadau'n gywir ar werth asedau net.

Er mwyn sicrhau bod yr ACS yn bodloni ei rwymedigaethau rheoleiddiol, mae Link yn allanoli’r gwaith o redeg ACS y PPC o ddydd i ddydd i ddarparwyr gwasanaethau fel cyfrifydd/gweinyddwr y gronfa a'r asiant trosglwyddo (Northern Trust). Yn ogystal, mae Link wedi penodi Northern Trust fel ymddiriedolwr.

Mae Cytundeb Gweithredwr yn ei le gyda Link Fund Solutions sy'n nodi dyletswyddau cytundebol y Gweithredwr ac yn rheoli'r berthynas rhwng y Gweithredwr a'r PPC. Mae'r JGC a'r OWG, gyda chefnogaeth ei Ymgynghorydd Goruchwylio, yn goruchwylio'r gwaith y mae Link Fund Solutions yn ei wneud ar ran y PPC. Mae Protocolau Ymgysylltu â Gweithredwyr PPC hefyd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod digon o ymgysylltu rhwng y Gweithredwr a'r Awdurdodau Cyfansoddol unigol. Mae'r Gweithredwr yn ymgysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol mewn dwy ffordd allweddol:

- Ymgysylltu'n uniongyrchol, drwy gyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid unigol Awdurdodau Cyfansoddol a'u hymgynghorwyr buddsoddi (cyfarfodydd pwyllgor)
- Ymgysylltu anuniongyrchol â’r Awdurdodau Cyfansoddol gyda’i gilydd, drwy'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu (JGC) a’r Gweithgor Swyddogion (OWG)

**Ymgysylltu Uniongyrchol**

Mae Link yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor o leiaf unwaith y flwyddyn gyda rhanddeiliaid ac ymgynghorwyr buddsoddi pob Awdurdod Cyfansoddol. Mae manteision yr ymgysylltu parhaus hwn fel a ganlyn.

- Datblygu'r berthynas barhaus
- Cynorthwyo dealltwriaeth Link o strategaeth fuddsoddi pob Awdurdod Cyfansoddol - gan gynnwys dyrannu asedau, gofynion risg ac adenillion ac unrhyw ddewisiadau dosbarth asedau.
- Mae hefyd yn rhoi cyfle i Russell Investments, fel y Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddi i'r PPC, roi persbectif newydd a chyngor cadarn i bwyllgorau Awdurdodau Cyfansoddol a'u hymgynghorwyr

Yn y cyfarfodydd hyn, mae Link yn cyflwyno adroddiadau manwl i bob Awdurdod Cyfansoddol unigol. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys:

- Crynodeb dyrannu asedau, gan gynnwys daliadau ar draws y Pŵl
- Diweddariadau gan reolwyr a hysbysiad o newidiadau i werthusiadau a safleoedd
- Adroddiadau trafodion, gan gynnwys tryloywder llawn yr holl gostau
- Adroddiadau perfformiad ar gyfer pob is-gronfa / strategaeth

**Ymgysylltu Anuniongyrchol**

Mae Link yn cynnal cyfarfodydd prosiect bob pythefnos gyda swyddogion dynodedig, gyda'r nod o sicrhau llif effeithlon o wybodaeth rhwng Link a’r PPC. Drwy'r cyfarfodydd pythefnosol hyn a chyfarfod ffurfiol OWG a JGC gall y PPC gyfleu'r canlynol i LINK:

- Disgwyliadau ar gyfer strwythurau'r Is-Gronfa y mae angen eu creu
- Barn a mewnbwn ar ddetholiadau Rheolwr
- Addasu gofynion canllawiau'r Rheolwr, yn enwedig o ran buddsoddi cyfrifol a meini prawf ESG
- Unrhyw ystyriaethau penodol i CPLlL

Yn y cyfamser, bydd Link yn gyfrifol am gyfleu'r canlynol:

- Adroddiadau manwl ar asedau mewn ACS a diweddariadau prosiect (gan gynnwys gweithgarwch lansio)
- Adroddiadau goruchwylio rheolwyr, gan gynnwys perfformiad a newidiadau i safleoedd rheolwyr
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI), sy'n helpu JGC/OWG i fonitro'r modd y darperir gwasanaethau
- Diweddariadau rheoleiddiol a diwydiant
- Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol ond mae'n enghraifft o'r ymgysylltu effeithlon rhwng y gwahanol endidau.

Mae Link Fund Solutions yn cynnal ystod eang o wasanaethau ar gyfer y PPC, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Hwyluso Cerbydau ac Is-gronfeydd Buddsoddi
- Adrodd ar berfformiad
- Gweithredu trosglwyddiadau
- Monitro gan reolwr a thrafodaethau ffioedd
- Cofnodi risg
- Darparu digwyddiadau a chyfarfodydd unigol i ddarparu addysg a hyfforddiant

Mae'r PPC hefyd wedi rhoi mecanweithiau ymgysylltu ychwanegol ar waith i sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o'r Gweithredwr a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel:

- Diweddariad awdurdod lletya bob pythefnos – yn ystod y cyfarfodydd hyn mae'r Awdurdod Lletya yn trafod yr hyn y gellir ei gyflawni, llif gwaith a diweddariad cynnydd gyda'r Gweithredwr er mwyn sicrhau bod gwaith yn mynd rhagddo'n amserol ac mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag amcanion y PPC.
- Adolygiad o'r Berthynas Strategol 6 Misol – Mae hyn yn gyfle i Swyddogion Adran 151 a'r Awdurdod Lletya amlinellu amcanion strategol PPC a sicrhau bod y Gweithredwr yn ymwybodol, yn gyson ac yn gallu cyflawni'r amcanion hyn.
- Diwrnod Cyfranddalwyr Blynyddol – lle mae Awdurdodau Cyfansoddol yn cael diweddariad strategol a pherfformiad gan y Gweithredwr a'r Rheolwyr Sylfaenol. Caiff Awdurdodau Cyfansoddol gyfle i gwestiynu neu herio unrhyw agweddau ar berfformiad neu feddylfryd strategol y Gweithredwr neu'r Rheolwr Buddsoddi.

LINK Fund Solutions

### Russell Investments (Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddi)

Mewn cydweithrediad â Link Fund Solutions, mae Russell Investments yn darparu gwasanaethau atebion heoli buddsoddi i'r PPC. Ochr yn ochr â Link Fund Solutions, maent yn gweithio mewn ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC i sefydlu cerbydau buddsoddi. Mae cylch gwaith Russell yn cynnwys cynghori Link Asset Services (is-gwmni i Link Fund Solutions) a PPC ar adeiladu portffolios sy'n cynnwys dewis rheolwyr. Mae Link Fund Solutions yn parhau i weithio gyda Russell Investments, lle bo hynny'n berthnasol, i leihau costau PPC ymhellach drwy strwythurau aml-reolwr, atebion rheoli arian cyfred, troshaenau portffolio, rheoli pontio a gwasanaethau gweithredu eraill.

Russell Investments

### Hymans Robertson (Yr Ymgynghorydd Goruchwylio)

Penodwyd Hymans Robertson yn Ymgynghorwyr Goruchwylio ar gyfer y PPC. Mae rôl Hymans Robertson yn rhychwantu goruchwyliaeth a chyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth rheoli prosiectau. Maent yn mynychu holl gyfarfodydd OWG a JGC.

### Burges Salmon (Ymgynghorydd Cyfreithiol)

Mae Burges Salmon yn darparu cyngor cyfreithiol, yn ôl yr angen. Mae cylch gwaith Burges Salmon yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu arbenigedd mewn cronfeydd a reoleiddir gan yr FCA, treth, caffael yn y sector cyhoeddus a llywodraeth leol. Yn ogystal, mae Burges hefyd yn cynghori ar drefniadau llywodraethu, gan adeiladu manylebau caffael cymhleth, cynghori ar y broses gaffael a meini prawf gwerthuso. Maent hefyd yn cefnogi PPC i gwblhau cytundebau cyfreithiol a llunio ceisiadau prosbectws yr FCA.

### Northern Trust (Y Ceidwad, Ymddiriedolwr, Asiant Trosglwyddo a Chyfrifydd y Gronfa)

Mae Northern Trust yn darparu nifer o wasanaethau i'r PPC, gan gynnwys benthyca gwarantau, gweinyddu cronfeydd, monitro cydymffurfiaeth ac adrodd.

Northern Trust yw'r Ymddiriedolwr ar gyfer cerbyd ACS PPC. Mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr fod yn gwmni awdurdodedig gyda'r FCA ac yn gwbl annibynnol ar y cerbyd ACS. Fel Ymddiriedolwr, mae gan Northern Trust deitlau cyfreithiol i fuddsoddiadau'r ACS ac mae'n gyfrifol am eu cadw'n ddiogel. Northern Trust sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Gweithredwr yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol. Yn y bôn, mae Northern Trust yn diogelu cyfranddalwyr y Gronfa sydd â'r hawliau i asedau'r cerbyd.

Penodir Northern Trust hefyd gan y Gweithredwr (Link Fund Solutions) i weithredu fel Cyfrifydd Cronfa a Gweinyddwr. Mae'r rôl hon yn golygu bod Northern Trust yn gyfrifol am bob agwedd ar gyfrifyddu'r gronfa o ddydd i ddydd gan gynnwys adrodd ar y Gwerth Asedau Net (NAV). Bydd cyfrifydd y gronfa yn gweithio'n agos gyda'r Gweithredwr, yr asiant trosglwyddo a'r ceidwad. Yn ogystal, cyfrifydd y gronfa sy'n gyfrifol am:

- Reoli data'r diogeliad a phrosesu camau corfforaethol
- Rheoli a chysoni cipio masnach
- Cymorth deilliadol
- Prosesu treuliau
- Cynhyrchu'r datganiadau ariannol blynyddol a lled-flynyddol

Northern Trust yw'r Asiant Trosglwyddo ar gyfer ACS y PPC, wrth gyflawni'r rôl hon mae Northern Trust yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn:


- AML Buddsoddwyr a diwydrwydd dyladwy
- Cynnal cofnodion cofrestr cyfranddalwyr/deiliaid uned y gronfa
- Sefydlu statws treth buddsoddwyr
- Prosesu delio buddsoddwr – tanysgrifiadau/adbryniadau ac ati
- Gweithio'n agos gyda'r rheolwr buddsoddi i ddarparu adroddiadau arian parod
- Cyhoeddi cyfryngau buddsoddwr – nodiadau contract, datganiadau

**Robeco UK (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Drwy Ddirprwy)**


Penodwyd Robeco UK yn ddiweddar yn ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC a byddant yn cynorthwyo'r PPC i lunio a chynnal Polisi Pleidleisio ac Egwyddorion Ymgysylltu sy'n cyd-fynd ag aelodaeth Awdurdodau Cyfansoddol Cymru o Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol ('LAPFF'). At hynny, bydd Robeco yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol £5bn PPC yn ogystal ag adrodd i PPC a'r Cronfeydd sylfaenol.

# Polisïau’r PPC

Mae'r PPC yn credu y dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid y PPC. I gydnabod y gred hon, mae’r PPC, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu strwythur a fframwaith llywodraethu  cadarn a chyfres o bolisïau llywodraethu. Ym mhob achos, mae polisïau a gweithdrefnau'r PPC wedi'u datblygu naill ai i ategu neu i ychwanegu at weithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r PPC yn deall pwysigrwydd llunio a chodio ei bolisïau a'i weithdrefnau. Mae'r broses hon yn caniatáu i'r PPC, a'r Awdurdodau Cyfansoddol:




Rhestrir polisïau, cofrestrau a chynlluniau allweddol y PPC isod a gellir eu gweld ar wefan PPC ac yn yr atodiadau.




Caiff polisïau'r PPC eu hadolygu'n flynyddol o leiaf a bydd y PPC yn asesu'n barhaus a oes angen unrhyw bolisïau, cofrestrau neu gynlluniau ychwanegol. Mae cynllun gwaith y PPC yn cynnwys nifer o ddogfennau llywodraethu ychwanegol a fydd yn cael eu datblygu, bydd y rhain ar gael ar wefan PPC ar ôl eu cwblhau.

Yn y tudalennau isod rydym wedi rhoi trosolwg cryno o bob polisi a'r gweithdrefnau y mae'r PPC wedi'u rhoi ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu a'i gadw'n effeithiol. Mae'r polisïau isod yn chwarae rhan hanfodol yn nhrefniadau llywodraethu'r PPC ac fe'u lluniwyd gyda'r unig ddiben o ddarparu fframwaith wedi'i godio a fydd yn sicrhau bod y PPC yn cyflawni ei amcanion mewn modd effeithiol a thryloyw.


# Rheoli Risg

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru ('PPC') yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau a all, os na chânt eu rheoli, gyfyngu ar allu'r PPC i gyflawni ei amcanion a gweithredu er budd ei randdeiliaid a'i fuddiolwyr. Fodd bynnag, mae'r PPC hefyd yn deall na ellir lliniaru rhai risgiau'n llawn ac yn yr achosion hyn bod angen ymdrin â'r risgiau drwy reolaeth weithredol ac effeithiol.

Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad PPC i lywodraethu da, mae'r PPC wedi datblygu strategaeth risg strwythuredig, helaeth a chadarn. Bydd y strategaeth hon yn cael ei rhoi ar waith yn fframwaith llywodraethu'r PPC i sicrhau gwell penderfyniadau, gwell canlyniadau  i randdeiliaid a mwy o effeithlonrwydd.

Mae strategaeth risg y PPC yn ceisio nodi a mesur risgiau allweddol  a sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau llywodraethu addas ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae'r PPC yn credu bod risgiau'n hylifol eu natur ac y gall difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau newid yn gyflym a heb rybudd. Er mwyn adlewyrchu'r gred hon, datblygwyd Polisi Risg y PPC yn y fath fodd fel y gellir rhagweld  risgiau ac ymdrin â hwy mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posibl i'r PPC a'i randdeiliaid.

Er mwyn cyflawni ei amcanion, mae angen i'r PPC gynnal gweithgareddau neu fanteisio ar gyfleoedd sy'n peri risg iddo. Bydd y graddau y gall y PPC gydbwyso risg ac adenillion yn effeithiol yn dibynnu ar lwyddiant ei Bolisi Risg. Mae'n hanfodol bod y Cynllun yn deall y risgiau cysylltiedig cyn gwneud penderfyniadau ac yn ystyried y modd y gellid rheoli'r risgiau hyn. Bydd nodi, deall, rheoli a monitro risgiau'n effeithiol yn caniatáu i'r PPC:




Y risg fwyaf i weithrediad parhaus y PPC yw ei allu i gyflawni ei brif amcanion. Mae Cynllun Busnes PPC yn ffordd    ychwanegol y bydd PPC yn rhoi cydnabyddiaeth arbennig i risgiau sy'n fygythiad sylweddol i gyflawni ei amcanion a'r   camau sydd eu hangen i reoli'r risgiau hyn. Mae'r PPC yn cynnal Cofrestr Risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd  gan Is-grŵp Risg penodedig sy'n adrodd yn ôl i'r OWG a'r JGC bob chwarter. Mae'r Is-grŵp nid yn unig yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg y PPC, mae hefyd yn gyfrifol am adolygu Polisi Risg y PPC yn flynyddol a datblygu unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio neu'n codi o'i waith monitro ac adolygu Cofrestr Risg y PPC. Mae'r Polisi Risg i'w weld  yn Atodiad  C, mae'r Gofrestr Risg  i'w gweld ar y wefan.

# Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r PPC yn credu y dylai Buddsoddi Cyfrifol, ochr yn ochr ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ar sail tystiolaeth, arwain at ganlyniadau gwell i'w randdeiliaid. Felly, mae wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i ni ers i ni gael ein sefydlu yn 2017. Mae gweithgareddau amrywiol wedi'u cynnal i weithio tuag at ein huchelgais o fod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. I ddechrau, canolbwyntiwyd ar lunio Polisi Buddsoddi Cyfrifol, Atodiad D. Ers hynny, mae'r PPC wedi llunio ei Bolisi Risg Hinsawdd ei hun, Atodiad E,ac wedi gweithio gyda'i Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Robeco, i gytuno ar Bolisi Pleidleisio, Atodiad F.

Yn Ch3 2020 lluniwyd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y PPC ac mae'r is-grŵp hwn wedi cymryd perchnogaeth o ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfrifol a chamau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed ym Mholisi Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd y PPC – mae hyn yn cynnwys;

- Gweithio gyda'r rheolwyr buddsoddi, ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth eraill y mae'r PPC wedi'u penodi i sicrhau y gellir gweithredu polisïau buddsoddi cyfrifol a newid hinsawdd y PPC yn effeithiol
- Datblygu arferion i fonitro ac adrodd ar faterion buddsoddi cyfrifol i gyflawni rhwymedigaethau'r PPC i'w randdeiliaid
- Monitro gweithgarwch buddsoddi cyfrifol, yn cynnwys metrics ESG a chofnodion pleidileisio ac ymgysylltu a darparu neu gyfeirio her fel sydd angen
- Ystyried datblygiadau'r farchnad a rheoleiddiol i sicrhau y gall PPC ystyried arferion gorau sy'n esblygu
- Ymgysylltu â Chronfeydd LGPS, Pŵliau LGPSs, Perchnogion Asedau a phartïon eraill fel sydd angen i gyflawni nodau'r PPC ar gydweithio.

Mae'r Grŵp yn adrodd i'r OWG a'r JGC ac yn eu cynghori ar unrhyw newidiadau i bolisïau neu ddull gweithredu PPC a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau y gellir cyflawni nodau PPC. Mae 'Cylch Gorchwyl' llawn y Grŵp i'w weld yn Atodiad G.

# Gwrthdaro Buddiannau a Gweithdrefn

Mae'r PPC yn cydnabod bod methu â rheoli gwrthdaro buddiannau yn peri risgiau materol i'r PPC, a gall ei ganlyniadau gynnwys penderfyniadau nad ydynt er budd gorau rhanddeiliaid y PPC, bod enw da'r PPC yn cael ei effeithio'n negyddol a'i gyfeirio at gyrff rheoleiddio. Mae'n bwysig bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu dilyn a dyna pam bod y PPC wedi llunio Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Gweithdrefn, Atodiad H, sy'n amlinellu sut mae gwrthdaro'n cael ei adnabod, ei reoli a'i fonitro. Prif amcanion Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Gweithdrefn y PPC yw;

- Arddangos ei ymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro gwrthdaro buddiannau.
- Glynu wrth cred y PPC y bydd llywodraethu a thryloywder da yn sicrhau canlyniadau gwell i randdeiliaid PPC.
- Bod y PPC yn parhau i greu fframwaith gwneud penderfyniadau a llywodraethu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i randdeiliaid y PPC.

# Cyfathrebu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn credu bod cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hanfodol i gyflawni ei amcanion. Mae'r PPC, fel rhan o'i ymrwymiad i'r gred hon, wedi llunio Polisi Cyfathrebu, atodiad I. Caiff y Polisi ei adolygu'n flynyddol, a bydd yr adolygiad yn ystyried datblygiadau arloesol o fewn y diwydiant cyfathrebu a barn a fynegwyd gan randdeiliaid y PPC. Mae'r Polisi yn nodi sut y bydd y PPC yn cyflawni ei strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol, ac mae'n ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Cynulleidfa Darged
- Negeseuon Allweddol/ Pwrpas Allweddol
- Modd o Gyfathrebu
- Cyfrifoldebau
- Adolygu ac Adlewyrchu

# Hyfforddiant

Mae'r PPC wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n esblygu ac yn dysgu'n barhaus. Roedd ffurfio Polisi Hyfforddiant y PPC, a Chynllun Hyfforddiant Blynyddol y PPC, mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, yn arbennig o braf gan ei fod yn dangos ymrwymiad parhaus y PPC i ddarparu manteision Pŵlio nad ydynt yn canolbwyntio ar fuddsoddi yn unig, tynnodd sylw hefyd at y lefelau cryf o ymgysylltu a barn gyffredin ymhlith yr Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae'r PPC wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddiant chwarterol ac mae'r rhain eisoes wedi bod yn ffordd wych o ddatblygu'r arbenigedd o fewn y PPC ymhellach a hefyd i gynyddu'r dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid y PPC.

Yn flynyddol, bydd y PPC yn cyhoeddi cynllun hyfforddi blynyddol i gefnogi ei Bolisi Hyfforddiant cyffredinol. Bydd Cynllun Hyfforddi Blynyddol y PPC yn amlinellu'r pynciau hyfforddi y bydd y PPC yn darparu hyfforddiant arnynt yn ystod y deuddeg mis nesaf. Mae'r Polisi Hyfforddiant llawn i'w weld yn Atodiad J, yn y cyfamser mae Cynlluniau Hyfforddiant Blynyddol y PPC ar gael ar y wefan.

# Arferion a Phrotocolau

Mae'r PPC yn cydnabod na fydd ei bolisïau ffurfiol yn gallu ymdrin â'i holl ymdrechion a'i weithgarwch o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r PPC yn dal i gredu ym manteision codio'r mecanweithiau a'r gweithdrefnau y mae wedi'u mabwysiadu'n anffurfiol ar ffurf Arferion a Phrotocolau'r PPC. Felly, mae'r PPC wedi rhoi rhestr o Arferion a Phrotocolau ar waith gyda'r nod o sicrhau:

- Gwneud penderfyniadau a gweithdrefnau cyson
- Gwell effeithiolrwydd a deilliannau
- Tryloywder
- Bod gan bersonél gyfarwyddyd a hyfforddiant addas
- Arferion y gellir eu hailadrodd a'u hegluro i bersonél newydd

Nodir y rhestr lawn o Arferion a Phrotocolau'r PPC isod ac mae rhagor o fanylion am y rhain i gyd i'w gweld ar y tudalennau dilynol:

- Protocolau Ymgysylltu
- Tryloywder
- Diogelwch Seibr
- Diogelwch Data
- Storio a Labelu Dogfennau
- Gwneud Penderfyniadau ac Adlewyrchu
- Rhestr Wirio Cyflwyniad

# Protocolau Ymgysylltu

Mae'r PPC wedi gosod yr amcanion iddo'i hun o roi protocolau ymgysylltu ar waith sydd yn;

- Meithrin cydberthnasau a llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng personél, darparwyr a rhanddeiliaid y PPC.
- Caniatáu trafod a gwerthuso effeithiol rhwng personél, darparwyr a rhanddeiliaid y PPC
- Sicrhau bod amcanion a chynllun busnes y PPC yn fyfyriol ac yn rhoi ystyriaeth briodol i strategaethau a chynlluniau'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- Galluogi i holl bersonél a rhanddeiliaid y PPC i gyfrannu a chefnogi'r PPC wrth gyflawni ei amcanion
- Hysbysu a diweddaru'n briodol yr holl randdeiliaid perthnasol ynghylch gweithgareddau, negeseuon allweddol a chynnydd y PPC tuag at ei amcanion

Bydd papurau cyfarfod y JGC hefyd ar gael i'r cyhoedd. Cynhelir diwrnodau ymgysylltu Byrddau Pensiwn Lleol yn rheolaidd fel ffordd o feithrin ymgysylltiad rhanddeiliaid. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ffurfioli ein protocolau ymgysylltu a fydd yn sicrhau ymgysylltiad a chydweithrediad parhaus awdurdodau cyfansoddol a darparwyr y PPC, cyflawnir hyn drwy'r dulliau ymgysylltu a ganlyn:

| Dulliau ymgysylltu | Amlder |
|---|---|
| Cyfarfod Adolygu Perthnasau Strategol | Ddwywaith y Flwyddyn |
| Ymgysylltu â JGC | Chwarterol |
| Cyfarfodydd/Galwadau Perfformiad Rheolwyr | Chwarterol |
| Digwyddiadau Hyfforddi | Chwarterol |
| Ymgysylltu OWG | Bob 2/3 Mis |
| Cyfarfodydd Pythefnosol | Bob pythefnos |
| Diwrnod Blynyddol y Cyfranddalwyr | Blynyddol |
| Pwyllgorau'r Gronfa Bensiwn | Blynyddol |
| Diwrnodau Ymgysylltu i Reolwyr | Blynyddol |
| Cyfathrebu Aelodau | Blynyddol |
| Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn | Bob 6 Mis |
| Ymgysylltu drwy'r wefan a LinkedIn | Parhaus |
| Holiadur Gofynion ac Uchelgeisiau Blynyddol Awdurdodau Cyfansoddol | Blynyddol |

Mae'r PPC bob amser wedi ceisio'r lefelau uchaf posibl o ymgysylltu â'i randdeiliaid a dyna pam, ochr yn ochr â'n strategaeth gyfathrebu, y byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella ein lefelau ymgysylltu â'n rhanddeiliaid mewnol, yn ogystal ag allanol.

# Tryloywder

Mae'r PPC yn credu mewn bod yn agored ac yn dryloyw felly bydd y PPC yn sicrhau bod cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu ar gael i'r cyhoedd drwy ffrwd gweddarlledu fyw, bydd yr holl bapurau cyfarfod nad ydynt wedi'u heithrio hefyd ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'r PPC wedi priodoli llawer iawn o amser ac adnoddau i lunio a chyhoeddi'r dogfennau a ganlyn a'u cyhoeddi i'r cyhoedd. Mae'r holl ddogfennau a chyhoeddiadau hyn wedi'u creu i ddarparu tryloywder ar yr hyn y mae'r PPC yn ei wneud a sut y mae'n gweithredu. Rydym yn gobeithio, drwy ddarllen y dogfennau a'r cyhoeddiadau hyn, y bydd ein rhanddeiliad a'r gynulleidfa ehangach yn cael tryloywder llawn ar weithgarwch a chynnydd y PPC:

Cynllun Busnes PPC

Llawlyfr Llywodraethu PPC

Adroddiad Blynyddol PPC

Holl Bolisïau PPC

Diweddariad Blynyddol PPC

Cynllun Hyfforddi Blynyddol PPC

Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol PPC (I'w gyhoeddi yn 2021)

Adroddiadau Perfformiad PPC

# Seiberddiogelwch/ Diogelwch Data

Mae'r PPC yn ymwybodol iawn o'r bygythiad a achosir gan dorri seiberddiogelwch a phwysigrwydd diogelwch data. Fel y nodwyd eisoes, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu fel Awdurdod Lletya ar gyfer y PPC, felly mae'r PPC wedi mabwysiadu:

- Polisi Diogelu Data;
- Polisi Ymdrin â Gwybodaeth Bersonol


Mae dau bolisi yn ymdrin â sut y mae'r Awdurdod Lletya yn sicrhau bod data wedi'i ddiogelu'n briodol, a bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn ffordd sy'n diogelu data rhag cael ei golli, ei ddwyn, ei ddatgelu'n amhriodol neu ei gamddefnyddio fel arall. Yn benodol, mae'r polisïau'n cwmpasu'r meysydd a ganlyn:

- Cyfrifoldebau
- Defnyddio dyfeisiau cludadwy neu gyfryngau y gellir eu tynnu
- Storio gwybodaeth bersonol yn ddiogel
- Cymryd gwybodaeth bersonol allan o'r swyddfa
- Trosglwyddo gwybodaeth bersonol yn ddiogel
- Cadw gwybodaeth bersonol
- Torri diogelwch
- Sicrhau triniaeth gyfartal

Mae'n werth nodi bod y PPC yn cadw ac yn prosesu symiau cyfyngedig iawn o Ddata Personol, mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddata aelodau unigol am eu Cronfeydd Pensiwn CPLlL priodol. Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am y polisïau hyn, gallwch ddod o hyd iddynt ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

# Storio a Labelu Dogfennau

Mae'r PPC yn credu ei bod yn bwysig storio a labelu holl waith papur a dogfennau perthnasol y PPC yn effeithiol – gan y bydd hyn yn lleihau'r risg o unrhyw aneffeithlonrwydd o fewn strwythur llywodraethu'r PPC a bydd yn helpu i uchafu effeithlonrwydd cyffredinol y PPC. Felly, mae'r PPC wedi datblygu arfer gorau ar gyfer Storio a Labelu Dogfennau yr anogir holl Bersonél ac ymgynghorwyr y PPC i gadw ati, mae'n cynnwys:





Bydd y PPC yn defnyddio'r dulliau storio dogfennau a ganlyn i sicrhau y gellir lleoli dogfennau'n hawdd ac yn gyflym pan fo'n ofynnol gan Bersonél, Rhanddeiliaid a Darparwyr y PPC:


- **Gwasanaethau Democrataidd** – yn sicrhau y bydd holl bapurau cyhoeddus JGC y PPC yn cael eu huwchlwytho a'u darparu ar ei wefan
- **Gwefan PPC** – Bydd yr Awdurdod Lletya yn defnyddio gwefan y PPC i storio a rhannu dogfennau cyhoeddus – bydd hyn er enghraifft yn cynnwys  Diweddariad Cynnydd, Cynllun Busnes neu Bolisïau'r PPC
- **FocalPoint** – sef cyfleuster storio dogfennau ar-lein diogel y mae'r PPC yn ei ddefnyddio ar gyfer papurau mewnol a chyfrinachol. Mae Personél a Darparwyr PPC, lle y bo'n briodol, yn cael manylion mewngofnodi'r cyfleuster hwn ac yn gallu ei ddefnyddio i gael mynediad i holl ddogfennau PPC o bell drwy gysylltiad â'r rhyngrwyd
- **Awdurdod Lletya** – Bydd yr Awdurdod Lletya hefyd yn storio holl ddogfennau a gwaith papur perthnasol y PPC yn lleol er mwyn sicrhau y gellir cael at dogfennau os bydd problemau gydag unrhyw un o'r tri dull arall a amlinellir uchod

# Gwneud Penderfyniadau a Myfyrio

Mae'r PPC yn gwbl ymwybodol o'r effaith y gall ei benderfyniadau eu cael ar ddeilliannau i randdeiliaid PPC. Mae'r PPC wedi ceisio datblygu gweithdrefn gwneud penderfyniadau effeithlon ac effeithiol sy'n caniatáu trafodaeth a her wybodus yn ogystal â phenderfyniadau clir a phendant. Mae'r PPC wedi mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â'i weithdrefn gwneud penderfyniadau – lle nad y pwynt penderfynu yw'r cam olaf ond yn hytrach dyma'r man cychwyn ar gyfer proses fyfyrio'r PPC. Mae'r enghraifft isod yn cynrychioli proses gwneud penderfyniadau a myfyrio'r PPC:





Mae cam cychwynnol y broses hon yn canolbwyntio ar y penderfyniadau gwirioneddol a wnaed. Daw penderfyniadau effeithiol yn sgil cyfuniad o her a gwerthusiad digonol, cyngor arbenigol, sylfaen wybodaeth ddofn a nifer o wiriadau a chydbwysedd. Mae'r PPC yn cydnabod pwysigrwydd amser yn y broses o wneud penderfyniadau, mae'n hanfodol bod Personél a Darparwyr PPC yn cael digon o amser i drafod, gwerthuso a herio. Felly, mae'r PPC wedi cyflwyno mecanwaith ar gyfer sicrhau bod amser cyfarfodydd yn cael ei dreulio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae holl bapurau cynghori’r PPC yn defnyddio'r mecanwaith dosbarthu a amlinellir isod. Amcan y mecanwaith hwn yw gwarantu bod Personél PPC yn gwybod o ddechrau'r papur beth sy'n ofynnol ganddynt.



Mae'r PPC hefyd yn nodi y gall fod yn bwysig, mewn rhai amgylchiadau, dogfennu penderfyniadau mewn ffordd gryno a chlir – mae hyn yn arbennig o wir os yw'r penderfyniad yn ymwneud â mater dadleuol neu arbennig o bwysig. Yn yr achosion  hyn, bydd y PPC yn defnyddio ei weithdrefn 'Dogfennu Penderfyniadau'.

Dogfennu’r penderfyniad yw'r cam cyntaf yng ngweithdrefn ‘Gwersi i'w dysgu' y PPC.  Mae'r PPC wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sydd bob amser yn dysgu ac yn esblygu. Mae'n bwysig bod y PPC yn adolygu ei benderfyniadau, yn ceisio dysgu gwersi ganddynt ac yna'n hidlo'r gwersi a ddysgwyd yn ôl i'w ymdrechion a'i benderfyniadau yn y dyfodol. Er mwyn helpu i ymgorffori'r broses hon yn ei fframwaith llywodraethu, mae'r Cynllun wedi llunio'r pum cam canlynol 'Gwersi i'w dysgu':




# Rhestr Wirio Cyflwyniad

Mae'r PPC yn ymwybodol y bydd trosiant o Ddarparwyr a Phersonél yn ystod ei fodolaeth, fel y cyfryw mae'n bwysig cael mesurau ar waith i helpu unrhyw Bersonél neu Ddarparwyr newydd i adeiladu eu sylfaen wybodaeth ar yr hyn y mae'r PPC yn ei wneud a sut mae'n gweithredu. Ar ôl dechrau eu rôl newydd, gofynnir i Bersonél neu Ddarparwr, lle y bo'n briodol, symud ymlaen drwy Restr Wirio Cyflwyniad PPC.

Nodwn hefyd fod Polisi a Chynllun Hyfforddi PPC yn amhrisiadwy o ran sicrhau bod gan unrhyw bersonél PPC y wybodaeth a'r sylfaen sgiliau angenrheidiol y mae arnynt eu hangen.

# Manylion Cyswllt

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y cynllun busnes hwn neu sy'n gysylltiedig ag ef, cysylltwch â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Cyfeiriad Post - Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin

Adran Buddsoddiadau'r Trysorlys a Phensiwn

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

E-bost - WalesPensionPartnership@carmarthenshire.gov.uk

Ffôn - (01267) 224136

Ceir rhagor o wybodaeth am y PPC a diweddariadau parhaus ar gynnydd y PPC ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.

Cewch hyd i'r wefan yma:

https://www.walespensionpartnership.org/

# Amserlen Ddangosol

- Gellir ystyried Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat y WPP mewn pedwar cam:
  - Cam 1 - Dyled ac Isadeiledd Preifat
  - Cam 2 - Cychwyn Eiddo
  - Cam 3 - Is-gronfa Ecwiti Preifat a Chyd-fuddsoddiadau/Oportiwnistaidd
  - Cam 4 - Gweithredu Eiddo
- Isod, rydym yn amlinellu Amserlen ddangosol ar gyfer y camau gwahanol.

| Amserlen | Cam | Gweithrediad | Perchennog |
|---|---|---|---|
| **Mawrth – Mai 2021** | Cam 1 | Cadarnhau modd o weithredu Dyled ac Isadeiledd Preifat a strwythur yr is-gronfa. | Is-Grŵp Marchnadoedd Preifat |
| **Mehefin - Gorffennaf 2021 ymlaen** | Cam 2 | Cadarnhau gofynion Eiddo'r WPP, gan ystyried y modd optimaidd o weithredu | Is-Grŵp Marchnadoedd Preifat |
| **Cynllunio i ddechrau fis Ebrill 2021 (Targedu Lansio: Awst - Rhag 2021)** | Cam 1 | Cymeradwyo'r Is-gronfeydd Dyled ac Isadeiledd Preifat, ei lansio a dechrau galw cyfalaf **Mae amseru'r cam hwn yn dibynnu'n fawr ar ddeilliant trafodaethau ar y dull o strwythuro'r gronfa.** | Gweithredwr, Rheolwyr, CAs, JGC |
| **Medi 2021 - Ebrill 2022** | Cam 3 | Cadarnhau modd o weithredu Ecwiti Preifat a Chyd-fuddsoddiadau/Oportiwnistaidd a strwythur yr is-gronfa. | Is-Grŵp Marchnadoedd Preifat |
| **2022 / 2023** | Cyfnod 4 | Ystyried ymhellach gweithredu Eiddo, Strwythur yr Is-gronfa, penodi rheolwr a gweithgareddau ailstrwythuro | Is-Grŵp Marchnadoedd Preifat, Gweithredwr, Rheolwyr |
| **Mehefin – Rhag 2022** | Cam 1 | Mesur ac ystyried yr archwaeth a'r angen am ail rown o Dyled neu Isadeiledd Preifat | CAs, Is-Grŵp Marchnadoedd Preifat |
| **Mehefin – Rhag 2022** | Cam 3 | Cymeradwyo'r Is-gronfeydd Ecwiti Preifat a Chyd-fuddsoddiadau/Oportiwnistaidd, ei lansio a dechrau galw cyfalaf | Gweithredwr, Rheolwyr, CAs, JGC |
| **Ion - Mehefin 2023** | Cam 1 | Cymeradwyo'r ail Is-gronfeydd Dyled / Isadeiledd Preifat, ei lansio a dechrau galw cyfalaf os bydd angen | Gweithredwr, Rheolwyr, CAs, JGC |


SON

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**
**PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**24 MAWRTH 2021**

# CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2021 - 2024

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cytuno ar Gynllun Busnes y Bartneriaeth a gaiff wedyn ei anfon i bob un o'r wyth o Awdurdodau Cyfansoddol er mwyn cael eu cymeradwyaeth ysgrifenedig.**

**RHESYMAU:**

Lluniwyd fersiwn drafft o gynllun busnes y Bartneriaeth am 2021 - 2024 sydd angen cymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor Llywodraethu yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Wedi cael cymeradwyaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu, anfonir y Cynllun Busnes i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol er eu cymeradwyaeth ysgrifenedig.


| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
| --- | --- | --- |
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br>**Cyngor Sir Gâr** | **e-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 24 MAWRTH 2021

| **CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2021 - 2024** | |
|---|---|
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Lluniwyd fersiwn drafft o gynllun busnes y Bartneriaeth yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.<br><br>Pwrpas y cynllun busnes yw:<br>• Esbonio cefndir y Bartneriaeth a'i threfn lywodraethu<br>• Rhoi crynodeb o flaenoriaethau ac amcanion y Bartneriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf.<br>• Cyflwyno polisïau a chynlluniau'r Bartneriaeth<br>• Nodi'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes<br>• Rhoi crynodeb o Fuddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad y Bartneriaeth<br><br>Caiff y cynllun ei fonitro'n barhaus, ac eir ati bob blwyddyn i'w adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol. | |
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| **Polisi**<br>Lluniwyd cynllun busnes a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| |
| |
| |
| |

# YMGYNGORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma:<br><br>Lluniwyd y fersiwn drafft o'r Cynllun Busnes ar y cyd â swyddogion y Gweithgor Swyddogion a Hymans Robertson, Ymgynghorwyr Trosolwg y Bartneriaeth. |

| **Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |



# Partneriaeth Pensiwn Cymru

# Cynllun Busnes

# 2021 -2024

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru | 3 |
| Llywodraethu | 4 |
| Rheoli Risg | 6 |
| Amcanion | 7 |
| Credoau | 8 |
| Polisïau | 9 |
| Cynllun Gwaith | 10 |
| Cynllun Hyfforddi | 13 |
| Cyllideb | 14 |
| Buddsoddiadau a Pherfformiad | 15 |
| Manylion Cyswllt | 17 |

# Cyflwyniad

Dyma'r cynllun busnes ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ('y Bartneriaeth'), sy'n cynnwys manylion ynghylch blaenoriaethau'r Bartneriaeth a'r meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt yn 2021/22 a 2022/23 a 2023/24. Caiff y cynllun busnes ei fonitro'n barhaus, ac eir ati bob blwyddyn i'w adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Egluro cefndir a strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion y Bartneriaeth yn y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes
- Crynhoi Amcanion Buddsoddi a Pherfformiad y Bartneriaeth

# Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017, ac mae'n drefniant cydweithredol rhwng yr wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Cyfansoddol) sy'n weithredol drwy Gymru gyfan, ac mae'n un o wyth cronfa gyfun yn genedlaethol. Mae gennym hanes hir a llewyrchus o gydweithio, ac wedi bod yn gwneud hynny ers cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi'i gynlluniau ar gyfer cyfuno cronfeydd. Rydym yn ymfalchïo yn ein hunaniaeth unigryw fel Cronfa Gyfun – mae ein Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli Cymru gyfan. Oherwydd ein hatebolrwydd democrataidd rydym yn cynnig y gorau o'r sector cyhoeddus o ran llywodraethu cryf a thryloywder.

Mae gennym ddull gweithredu sydd â'r nod o fod yn hyblyg a chyflawni gwerth am arian. Rydym wedi penodi Gweithredwr allanol i'r gronfa ac yn defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn manteisio ar arbenigwyr o'r radd flaenaf i gynorthwyo wrth weinyddu'r Gronfa Gyfun, ac mae'r rhain yn cynnwys Hyman Robertson a benodwyd yn Ymgynghorydd Trosolwg ar ran y Bartneriaeth. Y Gweithredwr yw Link Fund Solutions, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Russell Investments wrth ddarparu rheolaeth effeithiol dros fuddsoddiadau a rhoi sicrwydd o ran perfformiad ffioedd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae gennym weledigaeth gyffredin a chytundeb o ran sut fydd y weledigaeth honno'n cael ei chyflawni, a pha mor sydyn. Dyma wyth Cronfa CPLl (Awdurdodau Cyfansoddol) Partneriaeth Pensiwn Cymru:


# Llywodraethu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn gyfrifol am sicrhau bod ei busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau. Rhaid sicrhau hefyd fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd yn ymdrechu i gael gwelliant parhaus ac i gydymffurfio gydag arfer orau'r diwydiant.

Mae'r Bartneriaeth yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd o Lywodraethu drwy ei Chytundeb Rhyng-awdurdod (IAA) sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Haelodau, Pwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhyng-awdurdod yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried y ddeddfwriaeth bresennol berthnasol. Yn unol â'i chred y dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid, mae'r Bartneriaeth wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith, sydd wedi cael ei ddylunio i:

- Cyflawni ei hamcanion
- Bod yn hyblyg ac yn fodlon addasu
- Arddangos ei hymrwymiad i safonau llywodraethu o'r radd flaenaf
- Diwallu anghenion ei rhan-ddeiliaid
- Meithrin cydweithrediad a chyfathrebu o fewn y Bartneriaeth
- Bod yn dryloyw
- Bod yn gost-effeithiol

Mae’r diagram a ganlyn yn dangos beth yw strategaeth lywodraethu'r Bartneriaeth:




Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd ar frig strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth. Hwy sy'n rheoli'r holl weithgareddau a gyflawnir gan y Bartneriaeth ac maent yn parhau yn gyfrifol am gymeradwyo'r Cynllun Busnes, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith y Bartneriaeth, yn ogystal â'i chredoau a'i hamcanion. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwneud llawer â holl agweddau strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth, tra bod Cydbwyllgor Llywodraethu'r Bartneriaeth a'r Gweithgor Swyddogion yn cynnwys cynrychiolwyr cynghorwyr a swyddogion o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae'r Bartneriaeth yn credu y dylai fod yn agored a thryloyw yn ogystal ag ymgysylltu â'i rhan-ddeiliaid allweddol yn rheolaidd. Felly, mae'r Bartneriaeth yn sicrhau y gall y cyhoedd weld cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu drwy we-ddarlledu byw. Mae papurau'r cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd hefyd. Ar ben hynny, bydd y Byrddau Pensiynau Lleol yn cynnal diwrnodau ymgysylltu yn gyson er mwyn meithrin cyswllt â rhan-ddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pa mor bwysig yw ei holl ran-ddeiliaid, ac felly mae wedi sefydlu Fframwaith Protocol Ymgysylltu, sy'n pennu'r dulliau ymgysylltu a ganlyn:

| Dulliau ymgysylltu | Amlder |
|---|---|
| Cyfarfod Adolygu'r Berthynas Strategol | Dwywaith y flwyddyn |
| Ymgysylltiad â'r CBLl | Chwarterol |
| Galwadau/Cyfarfodydd Perfformiad Rheolwyr | Chwarterol |
| Digwyddiadau Hyfforddiant | Chwarterol |
| Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion | Bob dau/dri mis |
| Cyfarfodydd bob yn ail Wythnos | Bob pythefnos |
| Diwrnod Blynyddol i Gyfranddalwyr | Blynyddol |
| Pwyllgorau Cronfa Bensiwn | Blynyddol |
| Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr | Blynyddol |
| Cyfathrebu ag Aelodau | Blynyddol |
| Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn | Bob chwe mis |
| Ymgysylltu drwy'r wefan a LinkedIn | Parhaus |
| Holiadur Gofynion ac Uchelgais Blynyddol Awdurdod Cyfansoddol | Blynyddol |

# Rheoli Risg

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau, o'u gadael heb eu rheoli, all gyfyngu ar allu'r Bartneriaeth i gyflawni ei hamcanion ac i weithredu er lles gorau ei rhan-ddeiliaid a'i buddiolwyr. Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth hefyd yn deall na ellir lleddfu rhai risgiau'n llwyr ac yn yr achosion hyn mae angen ymdrin â'r risg wrth ei reoli'n weithredol ac yn effeithiol.


Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad y Bartneriaeth i lywodraethu da, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu strategaeth risg gadarn, eang a strwythuredig. Bydd y strategaeth hon yn cael ei gwreiddio yn fframwaith llywodraethu'r Bartneriaeth i sicrhau gwell penderfyniadau, gwell deilliannau i ran-ddeiliaid a gwell effeithlonrwydd.

Mae strategaeth risg y Bartneriaeth yn ceisio adnabod a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau priodol a gweithdrefnau llywodraethu yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Cred y Bartneriaeth fod natur anwadal i'r risgiau hyn ac y gall difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau newid yn sydyn ac yn ddirybudd. I adlewyrchu'r gred hon, mae Polisi Risg y Bartneriaeth wedi cael ei ddatblygu mewn modd lle gellir rhagweld risgiau ac ymdrin â hwy mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posib i'r Bartneriaeth a'i rhan-ddeiliaid.

I gyflawni ei hamcanion, mae angen i'r Bartneriaeth gynnal gweithgareddau neu fanteisio ar gyfleoedd sy'n ei rhoi mewn risg. Bydd y graddau y gall y Bartneriaeth gydbwyso'r risg  a'r adenillion yn ddibynnol ar lwyddiant ei Bolisi Risg.  Cyn gwneud penderfyniadau, mae'n hanfodol fod y Bartneriaeth yn deall y risgiau perthnasol ac yn ystyried sut ellir rheoli'r risgiau hyn.

Y risg mwyaf i weithrediad parhaus y Bartneriaeth yw ei gallu i gyflawni ei phrif amcanion. Mae Cynllun Busnes y Bartneriaeth yn fodd ychwanegol i'r Bartneriaeth roi cydnabyddiaeth arbennig i risgiau sy'n peri bygythiad materol i gyflawni ei hamcanion a'r camau sydd eu hangen i reoli'r risgiau hyn.

Yn ystod cyfnod y cynllun busnes hwn bydd y Bartneriaeth yn mynd ati i ddatblygu mecanweithiau, fframweithiau a phrosesau ar gyfer rheoli'r risgiau allweddol a ganlyn:



# Amcanion

Mae'r Bartneriaeth yn falch o gynrychioli'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cydnabod ei dyletswydd i sicrhau bod anghenion a gofynion yr holl ran-ddeiliad yn cael eu diwallu. Mae'r Bartneriaeth, trwy ymgynghoriad â'r wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi llunio rhestr o brif amcanion a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Darparu trefniadau cyd-fuddsoddi sy'n galluogi i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (pan fo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni arbedion costau perthnasol i gronfeydd cyfranogol tra'n gwella neu'n cynnal a chadw perfformiad buddsoddi ar ôl ffioedd.
- Gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn i gael trosolwg o weithgareddwch y cyd-fuddsoddi.
- Gweithio'n agos gyda Chronfeydd Cyfun eraill i archwilio'r manteision y gall pob rhan-ddeilydd yng Nghymru elwa ohonynt wrth ddefnyddio datrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Darparu fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r deilliannau gorau i'w rhan-ddeiliaid allweddol; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn medru defnyddio'r fframwaith hwn i ddarparu'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr y Cynllun.

Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod fod eu cryfder yn deillio o'r credoau sy'n gyffredin rhyngddynt a'u gallu i gydweithio i gyflawni eu hamcanion cyffredin er lles holl ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

# Credoau

Mae Credoau'r Bartneriaeth yn adlewyrchu natur gydweithredol a gwerthoedd cyffredin yr Awdurdodau Cyfansoddol, maent fel a ganlyn:

Rôl y Bartneriaeth yw hwyluso a darparu llwyfan cyd-fuddsoddi fel cyfrwng i weithredu ddiddordebau'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

Mae cydweithredu mewnol rhwng yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gall cydweithio allanol hefyd fod yn fanteisiol wrth ddarparu arbedion costau a gwell deilliannau i ran-ddeiliaid.

Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i leddfu Risg Hinsawdd, ar y cyd ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

Mae cyfathrebu mewnol ac allanol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth.

Gall cyflenwyr allanol fod yn fodd cost-effeithiol o wella adnoddau, gallu ac arbenigedd y Bartneriaeth.

Bydd tryloywder ffioedd a chostau yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ac yn gwella deilliannau i'r rhan-ddeiliaid.


Bydd dysgu, arloesedd a datblygiad parhaus yn gymorth i'r Bartneriaeth a'i Hawdrudodau Cyfansoddol esblygu.

Bydd agwedd hyblyg at strwythur cyfun a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi i gronfa gyfun y Bartneriaeth addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion ei rhan-ddeiliaid.


Mae credoau'r Bartneriaeth yn sylfaen i'r fframwaith llywodraethu ac maent wedi cael eu defnyddio i lywio pob un o weithgareddau'r Bartneriaeth a'i phenderfyniadau, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau.

# Polisïau

Cred y Bartneriaeth y dylai llywodraethu da arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. I gydnabod y gred hon, mae'r Bartneriaeth, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu strwythur a fframwaith llywodraethu cadarn a chyfres o bolisïau llywodraethu. Ym mhob achos, mae polisïau a gweithdrefnau'r Bartneriaeth wedi cael eu datblygu i un ai gyfrannu neu ychwanegu at weithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall pwysigrwydd llunio a chyfundrefnu ei pholisïau a'i gweithdrefnau. Mae'r broses hon yn caniatáu i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol:




Isod, ceir rhestr o bolisïau allweddol, cofrestri a chynlluniau'r Bartneriaeth, a gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth:




Adolygir dogfennau'r Bartneriaeth hon o leiaf unwaith y flwyddyn, a bydd y Bartneriaeth yn cynnal asesiadau parhaus i bennu a oes gofyn am bolisïau, cofrestri neu gynlluniau ychwanegol. Mae cynllun gwaith y Bartneriaeth yn cynnwys nifer o ddogfennau llywodraethu ychwanegol fydd yn cael eu datblygu yn ystod y tair blynedd nesaf, a bydd y rhain ar gael ar wefan y Bartneriaeth. Mae'r polisïau'n chwarae rôl hanfodol yn nhrefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth ac maent wedi'u llunio gyda'r unig fwriad o ddarparu fframwaith sydd wedi'i gyfundrefnu fydd yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hamcanion mewn modd effeithiol a thryloyw.

# Cynllun Gwaith

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif flaenoriaethau ac amcanion y mae'r Bartneriaeth yn bwriadu eu cyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf.

## Llywodraethu

Mae'r Bartneriaeth o'r farn fod llywodraethu da yn arwain at well canlyniadau i'w rhan-ddeiliaid, ac felly bydd yn dal ati i ddatblygu ei fframwaith llywodraethu drwy ddatblygu polisïau, cofrestri a chynlluniau ychwanegol a chynnal adolygiadau parhaus o'i dogfennau a'i strwythur llywodraethu presennol.

| Gwaith i'w gwblhau | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|
| Penodi Cynrychiolydd o Aelodau'r Cynllun i'r Cydbwyllgor Llywodraethu | ✓ | | |
| Datblygu Polisi Ail-gydbwyso ac Addasu i'r Bartneriaeth | ✓ | | |
| Llunio Matrics Cyfrifoldebau i Is-gronfeydd y Bartneriaeth | ✓ | | |
| Datblygu Polisi Cwynion y Bartneriaeth | | ✓ | |
| Datblygu Polisi Tramgwyddau a Gwallau'r Bartneriaeth | | ✓ | |
| Datblygu 'Adroddiadau Rhestr Wirio Cyn Cymeradwyo' i Is-gronfeydd y Bartneriaeth | ✓ | ✓ | |
| Datblygu Cynllun Parhad Busnes y Bartneriaeth | ✓ | ✓ | |
| Adolygu'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adolygiad blynyddol o bolisïau a chynlluniau'r Bartneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg | ✓ | ✓ | ✓ |

## Sefydlu Parhaus

Mae'r Bartneriaeth yn falch o'i llwyddiant hyd yma wrth gyfuno asedau, a bydd yn dal i neilltuo adnoddau i sicrhau y caiff yr holl asedau addas eu cynnwys yn y gronfa gyd-fuddsoddi.  Hyd yn hyn, mae'r Bartneriaeth wedi cyfuno 62% o'i hasedau ac erbyn diwedd mis Mawrth 2022 mae'n bwriadu bod wedi cyfuno 70% o'i hasedau.

| Gwaith i'w gwblhau | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|
| Lansio'r Is-gronfa Marchnadoedd Datblygol | ✓ | | |
| Lansio'r Is-gronfeydd Dyled ac Isadeiledd Preifat | ✓ | | |
| Llunio gofynion Eiddo'r Bartneriaeth a'r modd gorau i'w gweithredu | ✓ | ✓ | |
| Adolygu a datblygu dull o gyfuno unrhyw asedau addas na chawsant eu cyfuno | | ✓ | ✓ |
| Lansio Is-gronfa Ecwiti Preifat | | ✓ | ✓ |
| Lansio Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat eraill (I'w cadarnhau) | | | ✓ |
| Ymgynghori â'r AC ar yr angen am is-gronfeydd eraill | ✓ | ✓ | ✓ |

## Gwasanaethau Gweithredwr

Mae'r Gweithredwr, ar y cyd â'r partïon eraill y mae'n eu cyflogi ar ran y Bartneriaeth, yn hanfodol i weithgareddau parhaus y Bartneriaeth, ac felly mae darpariad gwasanaeth y Gweithredwr a darparwyr trydydd parti eraill yn risg gwirioneddol i'r Bartneriaeth. Bydd y Bartneriaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu fframwaith a fydd yn ei galluogi i fonitro ac arfarnu darpariad gwasanaeth y Gweithredwr, a bydd y fframwaith hwnnw'n rhan annatod o ddulliau monitro risg y Bartneriaeth.

| Gwaith i'w gwblhau | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|
| Fframwaith Trosolwg Gweithredwr y Bartneriaeth | ✓ | | |
| Adolygu contract y Gweithredwr | ✓ | | |
| Adolygu adroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Gweithredwr | ✓ | | |
| Adolygu'r Farchnad yn ôl datblygiadau ym maes y Gweithredwr | ✓ | | |
| Sefydlu a gweithredu fframwaith ar gyfer monitro perfformiad Russell Investments fel ymgynghorwyr buddsoddiadau Link | ✓ | ✓ | |

## Cyfathrebu a Hyfforddiant

Mae'r Bartneriaeth eisiau sicrhau bod rhan-ddeiliaid mewnol a phartïon allanol yn ymwybodol o'r cynnydd y mae'r Bartneriaeth yn ei wneud, a bydd yn mynd ati i gyhoeddi nifer o adroddiadau a diweddariadau i sicrhau ei bod yn rhagweithiol wrth gyfathrebu gyda'r rhan-ddeiliaid i ddangos y cynnydd. Mae'r Bartneriaeth yn falch iawn o'r gwaith mae'n ei gyflawni ar ran ei rhan-ddeiliaid a bydd yn darparu crynodeb ac adroddiad manwl ar ei gweithgareddau dros y 12 mis diwethaf ar ffurf Diweddariad ac Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn llunio ei Hadroddiad Cynnydd Blynyddol ar Fuddsoddi Cyfrifol yn ystod eleni i egluro a rhoi manylion ynghylch sefyllfa'r Bartneriaeth o safbwynt Buddsoddi Cyfrifol a pha waith y mae wedi'i gyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu rhinweddau Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth.

| Gwaith i'w gwblhau | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|
| Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Bartneriaeth ar Fuddsoddi Cyfrifol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llunio Cynllun Hyfforddi Blynyddol y Bartneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llunio Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llunio Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ |

## Buddsoddiadau ac Adrodd Arnynt

Mae'r Bartneriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu datrysiadau buddsoddi sy'n cyd-fynd â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i lunio Is-gronfeydd arloesol sydd gyda'r gorau er defnydd yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod datrysiadau buddsoddi presennol yn aros gyda'r gorau ac yn cyd-fynd â gofynion Awdurdodau Cyfansoddol, tra hefyd yn cyflawni disgwyliadau'r Awdurdodau Cyfansoddol o ran enillion ar fuddsoddiadau.

Mae Buddsoddi Cyfrifol yn parhau i fod o bwysigrwydd hanfodol i'r Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol. Yn ystod cyfnod y cynllun gwaith hwn bydd y Bartneriaeth yn clustnodi adnoddau i sicrhau bod ganddi stiwardiaeth ar lefel sy'n arwain y farchnad. Dymuna'r Bartneriaeth ddangos ei rhinweddau stiwardiaeth drwy fod yn llofnodwr i'r UK Stewardship Code eleni. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ac mae'n gobeithio y bydd ei gweithgareddau ymgynghori yn ei chaniatáu i roi safonau Risg Hinsawdd ac ESG gofynnol o fewn ei His-gronfeydd yn ystod y flwyddyn nesaf.  Bydd y Bartneriaeth hefyd yn gwella'r modd y mae'n adrodd ar ESG a Risg Hinsawdd a'i throsolwg o reolwyr buddsoddi a'r modd y mae'n adrodd arnynt.

| Gwaith i'w gwblhau | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|
| Datblygu adroddiadau perfformiad y Rheolwr Buddsoddiadau, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a risg newid hinsawdd | ✓ | | |
| Cwblhau'r Gofynion Adrodd ar Bleidleisio ac Ymgysylltu yn derfynol | ✓ | | |
| Dod yn llofnodwr i'r UK Stewardship Code | ✓ | | |
| Llunio Blaenoriaethau Ymgysylltu'r Bartneriaeth a'i Fframwaith Gweithredu. | ✓ | ✓ | |
| Adolygu pa mor gydnaws yw Meincnodau Is-gronfeydd y Bartneriaeth gyda'i Chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd | ✓ | ✓ | |
| Ystyried adrodd ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad y Bartneriaeth i Fuddsoddi Cyfrifol (e.e. Adrodd TCFD) | | ✓ | ✓ |
| Adolygiad blynyddol o Ofynion Tryloywder Costau'r Bartneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnal ymarfer meincnodi marchnad pob blwyddyn ar Is-gronfa Perfformiad Buddsoddi'r Bartneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau gofynnol ESG/RI a'u dyheadau hinsawdd | ✓ | ✓ | ✓ |

## Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod fod prinder adnoddau'n peri risg arwyddocaol i'w gallu i ddarparu fframwaith buddsoddiadau sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'w rhan-ddeiliaid allweddol, a bydd y Bartneriaeth yn ymgymryd â'r darnau a ganlyn o waith er mwyn sicrhau bod ganddi'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei hymrwymiad.

| Gwaith i'w gwblhau | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|
| Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llunio Cyllideb Flynyddol y Bartneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adolygu a Monitro Ffioedd (gan gynnwys Link a Russell) | ✓ | ✓ | ✓ |

# Cynllun Hyfforddi

Yr arfer orau yw i staff y Bartneriaeth gael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol ynghylch:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- chyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth i ategu cynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar y lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth o ran cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth. Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol i ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor Llywodraethu; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Byrddau Pensiwn, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

Isod, nodir rhestr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar eu cyfer yn ystod blwyddyn ariannol 2021/2022. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd o holiadur/asesiad gofynion hyfforddi PPC 2020/21, a gyflwynir i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion pob blwyddyn.

**Gwybodaeth am Gynnyrch**

- Marchnad Breifat - Dosbarthiadau Asedau a Gweithrediad
- Marchnad Breifat - Gorchuddion Cronfa a Llywodraethu

**Buddsoddi Cyfrifol**

- Mynegai a Datrysiadau Buddsoddi Cyfrifol
- Adrodd am Fuddsoddi Cyfrifol

**Perfformiad Buddsoddi a Rheoli Risg**

- Adrodd ar Berfformiad a Meincnodi Rheolwyr
- Rolau a Chyfrifoldebau yn yr ACS

**Canllawiau, Gofynion Rheoleiddio ac Arferion Gorau**

- Llywodraethu Da
- Tryloywder Costau

# Cyllideb

Mae'r tabl isod yn nodi cyllideb y Bartneriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf.

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Awdurdod Lletya * | 182 | 212 | 217 |
| Ymgynghorwyr Allanol * | 680 | 680 | 680 |
| **CYFANSWM i'w ail-godi** | **862** | **892** | **897** |
| | | | |
| Gwasanaethau Gweithredwr ** | 28,447 | 34,614 | 37,975 |
| **CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau** | **28,447** | **34,614** | **37,975** |

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol y Bartneriaeth yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).*

# Buddsoddiadau a Pherfformiad

Cyfanswm asedau Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yw tua £17.5 biliwn (fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2020). Mae buddsoddiadau goddefol yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd yn y Gronfa Gyfun i bob pwrpas, ond maent yn aros ym meddiant yr awdurdodau perthnasol ar ffurf polisïau yswiriant.

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn derbyn adroddiadau perfformiad pob chwarter, pob chwe mis a phob blwyddyn, ac mae'r Grŵp yn adolygu a herio perfformiad y Rheolwyr Buddsoddiadau ar ran y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal diwrnodau ymgysylltu â rheolwyr yn flynyddol, a defnyddir y rhain i herio rheolwyr a hwyluso ymgysylltu ag Aelodau Pwyllgorau a Byrddau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol, a Rheolwyr Buddsoddiadau'r Bartneriaeth. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol hefyd yn gwneud eu dadansoddiadau lleol eu hunain o berfformiad buddsoddiadau'r Bartneriaeth, a bydd hynny'n golygu y bydd rheolwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Pensiynau. Mae'r isod yn amlinellu Is-gronfeydd y Bartneriaeth ar hyn o bryd.

**Is-gronfeydd Ecwiti**

***Cronfa Twf Byd-eang***

**Rheolir gan Link**

**Gwerth y Portffolio: £2 biliwn**

***Cronfa Cyfleoedd Byd-eang***

**Rheolir gan Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £2 biliwn**

***Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol***

**Rheolir gan Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn**

*** Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio**

| Is-gronfa | Meincnod perfformiad | Cronfeydd Cyfranogol | Rheolwyr | Dyddiad Lansio |
|---|---|---|---|---|
| Twf Byd-eang | MSCI ACWI ND | Rhondda Cynon Taf, Gwynedd a Phowys | Baillie Gifford, Veritas a Pzena | Chwefror 19 |
| Cyfleoedd Byd-eang | MSCI ACWI ND | Abertawe, Torfaen, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf a Chlwyd | Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWG ac Oaktree | Chwefror 19 |
| Cyfleoedd y DU | FTSE All Share | Caerdydd a Thorfaen | Majedie, Lazard, Baillie Gifford, Ninety-One a Liontrust | Medi 19 |

## Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

**Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt**
Rheolir gan Russell Investments
Gwerth y Portffolio: £0.4 biliwn

**Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang**
Rheolir gan Russell Investments
Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn

**Cronfa Credyd Aml-ased**
Rheolir gan Russell Investments
Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn

**Cronfa Credyd Byd-Eang**
Rheolir gan Russell Investments
Gwerth y Portffolio: £0.8 biliwn

**Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol**
Rheolir gan Link
Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn

* Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio

| Is-gronfa | Meincnod perfformiad | Cronfeydd Cyfranogol | Rheolwyr | Dyddiad Lansio |
|---|---|---|---|---|
| Credyd Byd-eang | Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged) | Caerdydd, Dyfed, Powys a Thorfaen | Western, Logan Circle, Fidelity a T Rowe Price | Gorffennaf 20 |
| Llywodraeth Byd-eang | FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged) | Caerdydd a Thorfaen | Bluebay a Colchester | Gorffennaf 20 |
| Credyd aml-ased | ICE BofA SONIA + 4% y flwyddyn | Caerdydd, Clwyd, Gwynedd, Powys ac Abertawe | ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya | Gorffennaf 20 |
| Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt | ICE BofA SONIA + 2% y flwyddyn | Caerdydd, Powys ac Abertawe | Wellington, Putnam, Aegon and Insight | Medi 20 |
| Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol | ICE BofA ML Eur-Stg plws 0.65% | Rhondda Cynon Taf | Fidelity | Gorffennaf 20 |

# Manylion Cyswllt

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am rywbeth yn y cynllun busnes hwn neu rywbeth sy'n gysylltiedig ag ef, mae croeso ichi gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Drwy'r Post – Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyngor Sir Gâr

Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

E-bost – Partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Rhif ffôn - (01267) 224136

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth a'r newyddion diweddaraf ynglŷn â chynnydd drwy fynd i'r wefan a'r dudalen LinkedIn.

Dyma gyfeiriad y wefan:

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**24 MAWRTH 2021**

| |
|---|
| **CYNLLUN HYFFORDDIANT PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2021/22** |
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Cymeradwyo cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2021/22** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Lluniwyd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2021/22 ac mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo. |



| | | |
|---|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Chris Moore** | **Swydd:**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **Rhif Ffôn: 01267 224160**<br><br>**E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 24 MAWRTH 2021

| CYNLLUN HYFFORDDIANT PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - 2021/22 | |
|---|---|
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Lluniwyd y cynllun hyfforddiant hwn ar gyfer y Bartneriaeth i ategu'r hyfforddiant Awdurdodau Cyfansoddol cyfredol, a bydd yn berthnasol i weithgareddau cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth. Mae'r cynllun hyfforddiant hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, gellid ei ymestyn i aelodau'r Pwyllgor Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiwn, os yw'n berthnasol.<br><br>Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth, ac yn cynnal y lefel hwnnw. Mae gan y Bartneriaeth bolisi hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru.<br><br>Cyflwynwyd Asesiad Gwybodaeth Cyd-fuddsoddi CPLlL i holl aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion ym mis Ionawr 2021 ac fe luniwyd cynllun hyfforddi 2021/22 gan ddefnyddio'r canlyniadau o'r asesiad hwn.<br><br>Cynhelir sesiynau hyfforddiant 2021/22 bob chwarter a byddant yn ymdrin â'r pynciau a ganlyn:<br>• Gwybodaeth am Gynnyrch<br>• Buddsoddi Cyfrifol<br>• Perfformiad Buddsoddi a Rheoli Risg<br>• Canllawiau, Gofynion Rheoleiddio ac Arferion Gorau | |
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| **Polisi**<br>Lluniwyd cynllun hyfforddiant a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| |
| |
| |
| |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

# Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2021/2022

## Cefndir a Rhagarweiniad

Mae'n arfer orau i bersonél PPC gael:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o:
  - y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
  - cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
  - cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn atodol at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth fagu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni eu dyletswyddau fel y bônt yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth.

Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

Awgrymir bod staff newydd y Bartneriaeth yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a nodir uchod. Yn dilyn hyfforddiant cyflwyno, mae disgwyl i staff gynnal eu dealltwriaeth o'r eitemau a nodir uchod, gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Noder y bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, anogir yr Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiynau hwythau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os credant y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hynny.

Mae gan y Bartneriaeth Bolisi Hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan PPC. Mae'r polisi yn rhoi rhagor o fanylion ar sut mae PPC yn ymdrin â hyfforddiant a datblygiad.

## Hyfforddiant Unigol

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth, ac yn cynnal y lefel honno.

Yr arfer orau yw bod unigolion yn adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach. Dylai unigolion ystyried eu hanghenion dysgu a chofnodi unrhyw weithgaredd hyfforddiant a gwblhawyd, a hysbysu'r Awdurdod Lletya, a fydd yn cynorthwyo'r broses hon drwy ddarparu holiadur anghenion hyfforddiant blynyddol neu asesiad.

## Hyfforddiant 2021/22

Isod, nodir rhestr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar eu cyfer dros weddill blwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd o holiadur/asesiad gofynion hyfforddi PPC 2020/21, a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion.

| **Pwnc** | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Gwybodaeth am Gynnyrch** | |
| • Marchnad Breifat - Dosbarthiadau Asedau a Gweithrediad | Ch1<br>Ebrill - Mehefin 2021 |
| • Marchnad Breifat - Gorchuddion Cronfa a Llywodraethu | |
| **Buddsoddi Cyfrifol** | |
| • Mynegai a Datrysiadau Buddsoddi Cyfrifol | Ch2<br>Gorffennaf - Medi 2021 |
| • Adrodd am Fuddsoddi Cyfrifol | |
| **Perfformiad Buddsoddi a Rheoli Risg** | |
| • Adrodd ar Berfformiad a Meincnodi Rheolwyr | Ch3<br>Hydref - Rhagfyr 2021 |
| • Rolau a Chyfrifoldebau yn yr ACS | |
| **Canllawiau, Gofynion Rheoleiddio ac Arferion Gorau** | |
| • Llywodraethu Da | Ch4<br>Ionawr - Mawrth 2022 |
| • Tryloywder Costau | |

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETHAU PENSIYNAU CYMRU**

**24 MAWRTH 2021**

## CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN AR Y CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**I:**

- **Cymeradwyo'r broses benodi, yn cynnwys sefydlu Is-grŵp i'r CLl.**
- **Cymeradwyo'r manyleb person ar gyfer Cynrychiolaeth Aelodau'r Cynllun**

**RHESYMAU:**

Ar 10 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y CLl:

- bod darpariaeth ar gyfer cynrychiolydd aelodau'r cynllun o fwrdd pensiwn fod yn aelod cyfetholedig (heb bleidlais) ar y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl);
- bod y Gweithgor Swyddogion yn paratoi manyleb person a phroses ddethol i'w cyflwyno i gyfarfod o'r CLl yn y dyfodol i'w cymeradwy'n ffurfiol.

Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi paratoi dogfen proses benodi, yn cynnwys manyleb person sy'n gofyn cael cymeradwyaeth ffurfiol y CLl


| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>CMoore@carmarthenshire.gov.uk |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
# 24 MAWRTH 2021

## CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN AR Y CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gydbwyllgor wedi'i gyfansoddi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac felly mae'n rhaid i aelodau'r CLl sydd â phleidlais fod yn aelodau etholedig. Mae aelodaeth gyfredol y Cydbwyllgor (fel y nodir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA)) yn un aelod etholedig a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae aelodau'r CLl wedi ystyried cynrychiolaeth aelodau'r cynllun yn ddiweddar i gynorthwyo â thryloywder PPC ac felly gryfhau trefniadau llywodraethu PPC. Gall Cynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun ymuno a'r CLl ond ddim ond fel aelodau cyfetholedig, heb bleidlais. Nid yw'r Cynrychiolwyr Aelodau hyn yn 'aelodau' o'r CLl cyhyd ag y mae pleidleisio ac ymarfer pwerau yn y cwestiwn; fodd bynnag, byddai hawl ganddynt i weld y papurau, mynychu cyfarfodydd a siarad mewn cyfarfodydd, gan gynnwys eitemau eithriedig.

Ar 10 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y CLl:

- bod darpariaeth ar gyfer cynrychiolydd aelodau'r cynllun o fwrdd pensiwn fod yn aelod cyfetholedig (heb bleidlais) ar y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl);
- bod gofyn i bob Awdurdod Cyfansoddol gadarnhau cynnwys cynrychiolydd aelodau cyfetholedig ar y CLl ac y gwneir y diwygiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA);
- bod y Gweithgor Swyddogion yn paratoi manyleb person a phroses ddethol i'w cyflwyno i gyfarfod o'r CLl yn y dyfodol i'w cymeradwy'n ffurfiol.

Byddai cynrychiolydd aelodau'r cynllun o un o'r wyth Bwrdd Pensiwn unigol yn gwella'r ymgysylltu â'r Byrddau Pensiwn ymhellach a byddai bod yn aelod bwrdd presennol yn golygu bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ynghyd â bod yn gyfarwydd â rheoliadau buddsoddi a llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi paratoi dogfen sy'n egluro'r broses benodi a'r manyleb person a argymhellir ar gyfer Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun. Y broses benodi a argymhellir yw bod pob Bwrdd Pensiwn lleol yn enwebu un cynrychiolydd aelodau'r cynllun, ac y dylai pob cynrychiolydd a enwebir gyflwyno mynegiant o ddiddordeb i is-grŵp yr CLl yn nodi eu rhinweddau penodol yn erbyn y manyleb person. Bydd y broses benodi yn cael ei chynnal gan is-grŵp y CLl a fydd yn ffurfio rhestr fer o'r enwebiadau ac yn cynnal cyfweliadau, os yn briodol, gan gyflwyno adroddiad gydag argymhelliad i CLl yn y dyfodol am gymeradwyaeth.

Unwaith y bydd y broses benodi a'r manyleb person wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol, byddai angen addasu'r IAA a byddai angen mynd â'r addasiadau i bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol am gymeradwyaeth.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **YDY** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES** | Cyfreithiol **DIM** | Cyllid **DIM** | Materion Rheoli Risg **DIM** | Goblygiadau Staffio **DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfreithiol**<br>Byddai angen addasu'r IAA a byddai angen i bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol yng Nghymru ei gymeradwyo. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

# Cynrychiolydd Aelodau Cynllun PPC i'r Cydbwyllgor Llywodraethu - Proses Benodi a Manyleb Person

## Proses Benodi

Mae rôl Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar y CLl ar agor i unrhyw gynrychiolydd presennol aelodau'r cynllun sy'n aelod o un o'r wyth bwrdd pensiwn lleol yng Nghymru.

Bydd gofyn i bob bwrdd pensiwn lleol enwebu unigolyn i'w ystyried yn y rôl. Nid oes rheidrwydd ar fwrdd pensiwn lleol i enwebu unigolyn. Nid yw bwrdd pensiwn lleol nad yw'n enwebu unigolyn wedi'i eithrio rhag gwneud enwebiad yn y dyfodol.

Bydd yr holl enwebai sy'n bodloni'r gofynion hyfforddiant, gwybodaeth a sgiliau yn cael eu gwahodd i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb yn nodi eu rhinweddau penodol yn erbyn y rolau a chyfrifoldeb penodol, fel y manylir isod.

Gofynnir i'r CLl gymeradwyo is-grŵp o aelodau i ymgymryd â'r broses benodi, yn cynnwys ffurfio rhestr fer o geisiadau a chynnal cyfweliadau, a bydd adroddiad ac argymhelliad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r CLl yn y dyfodol am gymeradwyaeth.

## Manyleb Person

### Hyfforddiant, gwybodaeth a sgiliau

Rhaid i Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth am;

- gyfraith pensiynau berthnasol;
- y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chanllawiau statudol sy'n ei gefnogi;
- polisïau a phrosesau'r CLl a'r PPC.

### Rolau a Chyfrifoldebau

Rôl Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun fydd:

- cynorthwyo gyda'r sicrwydd o adrodd tryloyw gan y pŵl;
- cynorthwyo gyda sicrhau gweithredu strategaethau'n effeithio gan y pŵl;
- cymryd rhan lawn yng nghyfarfodydd y CLl ac eithrio bwrw pleidlais;
- gweithredu er budd holl aelodau'r cynllun ym mhob un o gronfeydd pensiwn CPLlL Cymru;
- gweithredu fel cyswllt rhwng y CLl a byrddau pensiwn lleol y cronfeydd cyfansoddol drwy ddod â syniadau ac awgrymiadau o'r byrddau pensiwn i'r CLl ac adrodd yn ôl ar benderfyniadau'r CLl i fyrddau pensiwn lleol;
- O bryd i'w gilydd, mynychu byrddau pensiwn lleol y cronfeydd cyfansoddol i ddarparu diweddariadau ac adroddiadau ar waith y CLl.

- mynychu digwyddiadau hyfforddiant a derbyn hyfforddiant parhaus ar faterion a datblygiadau perthnasol.

Rhaid i Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun allu arddangos;

- ymrwymiad cryf i'r rôl yn cynnwys rhoi amser i ymgymryd â'r dyletswyddau angenrheidiol;
- ymrwymiad cryf i lwyddiant y PPC a buddion ei holl awdurdodau cyfansoddol;
- y gallu i ddod â safbwynt aelodau'r Cynllun (gweithredol, wedi'u gohirio a phensiynwyr) i waith y CLl;
- y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth;
- yr hyder i herio, dylanwadu ac ymgysylltu ag eraill
- sgiliau rhyngbersonol da;
- y gallu i gyfrannu i gyfarfodydd y CLl;
- ymwybyddiaeth dda o reoliadau CPLlL, buddsoddi ac ariannol
- gwybodaeth gadarn am weithredu arferion llywodraethu da
- bod yn gyfathrebwr effeithiol ac yn aelod o dîm sy'n medru hyrwyddo perthnasau gwaith ardderchog o fewn y Bwrdd Pensiwn Lleol ac ennyn hyder rhanddeiliaid allanol
- y gallu i ymgymryd â'r rôl i'r safonau uchaf a chadw at y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

### Buddiannau sy’n Gwrthdaro

Rhaid i Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ddatgan p'un a oes ganddynt unrhyw fuddiant o ran unrhyw fusnes y mae'r CLl yn ymdrin ag ef, wrth gael eu penodi i'r CLl ac ar unrhyw bwynt dilynol.

Diffinnir buddiant sy'n gwrthdaro fel buddiant ariannol neu arall sy'n debygol o ragfarnu gweithrediad swyddogaethau person fel aelod o'r CLl.

### Presenoldeb

Disgwylir i Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun fynychu holl gyfarfodydd y CLl ynghyd ag unrhyw ddigwyddiadau eraill a drefnir yn swyddogol. Fel arfer, ceir pedwar cyfarfod y flwyddyn. Petai'r cynrychiolydd yn absennol yn gyson, bydd eu haelodaeth yn cael ei adolygu gan y CLl.

### Cyfnod Swydd

Bydd y penodiad cychwynnol am gyfnod o flwyddyn, ac ar ôl hynny bydd gan y CLl yr opsiwn o ymestyn y penodiad am flwyddyn bellach

# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

**24 MAWRTH 2021**

## ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 1 2021

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg PPC**

**RHESYMAU:**

Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar hanner cyntaf yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio, risgiau G.1 i G.6.


| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 24 MAWRTH 2021

| ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 1 2021 |
|---|

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:

- Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion
- Meintoli difrifoldeb a tebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

Cymeradwywyd y Gofrestr Risg wreiddiol gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl yn chwarterol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau o fewn adran Llywodraethu a Rheoleiddio y Gofrestr Risg, risgiau G.1 i G.6. Mae'r daflen sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb o ddeilliannau adolygu pob risg.

Mae gan y GS Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch2 2021 a bydd yn canolbwyntio ar weddill y risgiau o fewn yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio, sef risgiau G.7 i G.12.

| ADRODDIAD MANWL YNGHLWM? | OES |
|---|---|

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

| Risg | Targed Sgôr y Risg | Sgôr Risg Cyfredol | Statws Presennol | Corff Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| G.1 | 10 | 10 | | GS (Is-Grŵp Adolygu Risg) | Mae tebygolrwydd y Risg wedi ei leihau o 3 i 2 o ganlyniad i'r rheoliadau ychwanegol y mae'r PPC wedi eu rhoi ar waith; mae'r rhain yn cynnwys eitem sefydlog yn ymwneud â 'Diweddariadau Rheoleiddio a Llywodraethu' yng nghyfarfodydd y GS, hwyluso sesiwn hyfforddi yn ymwneud yn benodol â rheoliadau a chanllawiau a derbyn diweddariadau datblygu rheoliadau ychwanegol ar gyfer y Gweithredwr. |
| G.2 | 6 | 3 | | GS (Is-Grŵp Adolygu Risg) | Mae tebygolrwydd y risg wedi ei ostwng o 2 i 1; mae hyn yn adlewyrchu cynnydd PPC wrth roi ar waith yr hyn a ganlyn:<br>• Is-grwpiau ychwanegol - mae'r grwpiau hyn yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau a dadlau manylach, tra hefyd yn ychwanegu haen ychwanegol i strwythur llywodraethu cyffredinol a gwiriadau a mantoli PPC<br>• Polisi Hyfforddiant penodol - bydd hwn yn cyfyngu ar y tebygolrwydd o fylchau mewn gwybodaeth<br>• Cynrychiolydd aelodau'r cynllun ar y CBLl - bydd yr aelod hwn yn darparu haen ychwanegol o ran herio ac amrywiaeth safbwyntiau |
| G.3 | 4 | 8 | | Awdurdod Lletya / GS | Mae rheoliadau risg ychwanegol wedi eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae angen gweithredu pellach er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y risg hwn yn digwydd; bydd hyn yn canolbwyntio ar ffioedd Rheolwyr Buddsoddiadau a ffioedd y Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau. Bydd PPC yn canolbwyntio ar wella tryloywedd a dulliau i wirio fod ffioedd gwaelodol yn unol â'r disgwyliadau. |
| G.4 | 8 | 8 | | Awdurdod Lletya | Mae difrifoldeb y risg bellach wedi ei godi o 2 i 4; mae hyn yn adlewyrchiad o arwyddocâd yr effaith ar enw da a'r dirwyon ariannol a gysylltir â cholli data personol. Bydd PPC hefyd yn llunio risg ychwanegol sy'n ymwneud â data masnachol sensitif / cyfrinachol (Risg G13). |
| G.5 | 8 | 8 | | Awdurdod Lletya | Dim diweddariad; mae'r risg yn parhau i fod wedi ei reoli'n dda ac yn unol â'r targed. Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |
| G.6 | 3 | 3 | | Awdurdod Lletya / GS | Mae tebygolrwydd y risg hwn wedi ei ostwng o 2 i 1, sy'n golygu fod y risg bellach yn cyd-fynd â'r targed. Gostyngwyd tebygolrwydd y risg yn dilyn:<br>• PPC yn rhoi polisi gwrthdaro buddiannau penodol ar waith<br>• Cynnal sesiwn hyfforddiant penodol ar sut i reoli gwrthdaro buddiannau<br>• Gofyn i bersonél a chyflenwyr PPC gwblhau ffurflenni datgan buddiant personol |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## Risg Llywodraethu a Rheoliadau

| | Manylion y Risg | | | | Sefyllfa bresennol | Sgorio | | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Perchennog y Risg a'r Cyfnod Effaith | Rheoliadau Risg Cyfredol | | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Cyfredol | Gweithredu sydd ei angen | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu | Adroddiad / Sylwadau ar Gynnydd |
| G.1 | PPC yn methu cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a chanllawiau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | • PPC yn anymwybodol ac/neu yn anwybyddu'r rheoliadau, canllawiau a diweddariadau diweddar perthnasol<br>• Dim modd o fonitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau<br>• Camddehongli'r modd y mae rheoliadau a chanllawiau yn berthnasol PPC<br>• Adnoddau annigonol i fodloni canllawiau a gofynion rheoliadau; mae hyn yn cynnwys Canllawiau Cronni. | Dirwyon posib, colli sofraniaeth ac effaith negyddol ar enw da'r PCC. | Awdurdod Lletya / Cydbwyllgor Llywodraethu | • Sicrhau fod hyfforddiant digonol yn digwydd<br>• Cynnal mecanwaith i fonitro newidiadau diweddar i reoliadau, a chynnydd tuag at fodloni'r gofynion newydd<br>• Ymgysylltu â chyrff rheoleiddio perthnasol (megis Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau ac MHCLG)<br>• Penodi ymgynghorydd cyfreithiol arbenigol<br>• Mae diweddariadau Rheoleiddio a Llywodraethu yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o'r GS<br>• Mae'r PPC wedi hwyluso a chynnal sesiynau hyfforddi â MHCLG a'r SAB yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hefyd wedi cynnal sesiwn hyfforddi yn ymwneud yn benodol â'r rheoliadau a'r canllawiau amrywiol y mae angen i'r PPC fod yn ymwybodol ohonynt, a'r cyrff a'r sefydliadau gwahanol sy'n cynhyrchu canllawiau/rheoliadau perthnasol. | Presennol | 5 | 2 | 10 |  | | GS (Is-grŵp cofrestr risg) | Mae tebygolrwydd y Risg wedi ei leihau o 3 i 2 o ganlyniad i'r rheoliadau ychwanegol y mae'r PPC wedi eu rhoi ar waith; mae'r rhain yn cynnwys eitem sefydlog yn ymwneud â 'Diweddariadau Rheoleiddio a Llywodraethu' yng nghyfarfodydd y GS, hwyluso sesiwn hyfforddi yn ymwneud yn benodol â rheoliadau a chanllawiau a derbyn diweddariadau datblygu rheoliadau ychwanegol ar gyfer y Gweithredwr. |
| | Gweithredol / Enw Da | | | Tymor Canolig | | Targed | 5 | 2 | 10 | | | Ch1 2022 | |
| G.2 | Daw PPC yn orddibynnol ar un neu nifer cyfyngedig o benderfynwyr neu gyrff penderfynu | • Mae gan nifer o benderfynwyr neu gorff penderfynu fwlch gwybodaeth sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyfrannu/dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.<br>• Mae adnoddau ac ymrwymiadau eraill yn cyfyngu ar argaeledd a mewnbwn penderfynwyr a chyrff penderfynu perthnasol.<br>• Mae nifer o benderfynwyr neu gorff penderfynu yn derbyn neu'n ennill grym penderfynu gormodol.<br>• Lefelau crynodiad o rym gwneud penderfyniadau na ellir eu cyfiawnhau | Mae PPC wedi'i rheoli'n aneffeithlon. Caiff penderfyniadau anaddas eu gwneud o ganlyniad i ddiffyg her / trafodaeth / mewnbwn ac amrywiaeth barn. | Cydbwyllgor Llywodraethu / GS | • Sicrhau fod hyfforddiant digonol yn digwydd<br>• Penodi Ymgynghorydd Trosolwg i roi cyngor ar strwythur llywodraethu PPC<br>• Caffael a defnyddio ymgynghorwyr a chyflenwyr allanol sy'n ychwanegu / hysbysu / darparu canllawiau ac yn cynnig amrywiaeth barn i'r broses o wneud penderfyniadau<br>• Defnyddio strwythur llywodraethu sy'n sicrhau craffu digonol cyn i benderfyniadau gael eu cymeradwyo<br>• Mabwysiadu strwythur llywodraethu nad yw'n caniatáu lefelau uchel o grynodiad o rym gwneud penderfyniadau<br>• Adolygiad blynyddol o ofynion PPC o ran adnoddau<br>• Cyfarfod bob yn eilflwydd â Byrddau Pensiwn, sy'n cynnig ffynhonnell amhrisiadwy o wybodaeth ac amrywiol safbwyntiau barn<br>• Aelod Bwrdd Pensiwn i'w ychwanegu at y CBLl<br>• Polisi Hyfforddiant penodol mewn grym<br>• Defnydd o Is-grwpiau pan fydd gofyn am drafodaeth / dadl ychwanegol ar fater penodol<br>• PPC wedi ffurfio llawlyfr llywodraethu sy'n darparu eglurder o ran trefniant llywodraethu PPC yn ogystal ag atgyfnerthu ei strwythur llywodraethu | Presennol | 3 | 1 | 3 |  | Amherthnasol | GS (Is-grŵp cofrestr risg) | Mae tebygolrwydd y risg wedi ei ostwng o 2 i 1; mae hyn yn adlewyrchu cynnydd PPC wrth roi ar waith yr hyn a ganlyn:<br><br>• Is-grwpiau ychwanegol - mae'r grwpiau hyn yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau a dadlau manylach, tra hefyd yn ychwanegu haen ychwanegol i strwythur llywodraethu cyffredinol a gwiriadau a mantoli PPC<br>• Polisi Hyfforddiant penodol - bydd hwn yn cyfyngu ar y tebygolrwydd o fylchau mewn gwybodaeth<br>• Cynrychiolydd aelodau'r cynllun ar y CBLl - bydd yr aelod hwn yn darparu haen ychwanegol o ran herio ac amrywiaeth safbwyntiau |
| | Gweithredol | | | Tymor Hir | | Targed | 3 | 2 | 6 | | | Ch1 2022 | |
| G.3 | Mae PPC yn methu â chadw at ei chyllideb a gytunwyd ymlaen llaw | • Amcangyfrif anaddas o'r gyllideb sydd ei hangen.<br>• Methiant i reoli costau gweithgareddau a ffioedd darparwyr allanol PPC yn effeithiol<br>• Methiant i gynnal dull o fonitro gwariant a'r gyllideb sy'n weddill | PPC yn methu cadw at ei chyllideb a gytunwyd ymlaen llaw ac/neu â chyllideb annigonol i dalu cyflenwyr a/neu ariannu gweithgareddau. | Awdurdod Lletya / Cydbwyllgor Llywodraethu | • Monitro gwariant cyfredol a'r gyllideb sy'n weddill<br>• Ymgysylltu â chyflenwyr perthnasol i ganfod a yw'n amser i ffioedd newid ac/neu a yw hynny'n unol â'r disgwyliad<br>• Cymeradwyir y Gyllideb Flynyddol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol<br>• Adroddir yn chwarterol i'r CBLl ar amrywiant cyllidebol, fel rhan o ddiweddariad yr Awdurdod Lletya<br>• Yr Awdurdod Lletya wedi rhoi gwiriad ffioedd ychwanegol ar waith ar gyfer ei ymgynghorwyr allanol | Presennol | 4 | 2 | 8 |  | Mae PPC yn datblygu mecanwaith er mwyn monitro ffioedd Rheolwyr yn effeithiol. | Awdurdod Lletya / GS | Mae rheoliadau risg ychwanegol wedi eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae angen gweithredu pellach er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y risg hwn yn digwydd; bydd hyn yn canolbwyntio ar ffioedd Rheolwyr Buddsoddiadau a ffioedd y Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau. Bydd PPC yn canolbwyntio ar wella tryloywedd a dulliau i wirio fod ffioedd gwaelodol yn unol â'r disgwyliadau. |
| | Ariannol / Enw Da | | | Tymor Byr | | Targed | 4 | 1 | 4 | | | Ch1 2022 | |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa bresennol | Sgorio | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Perchennog y Risg a'r Cyfnod Effaith | Rheoliadau Risg Cyfredol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Cyfredol | Gweithredu sydd ei angen | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu | Adroddiad / Sylwadau ar Gynnydd |
| G.4 | Mae PPC yn methu â chadw cofnodion addas; ni chaiff dogfennaeth ei ffeilio mewn modd priodol ac ni chaiff data personol ei gadw'n ddiogel. | • Diffyg gweithdrefnau addas<br>• Gwybodaeth annigonol ynghylch arfer orau o ran sut i gadw data personol, dogfennaeth a chofnodion.<br>• Diffyg systemau addas a datrysiadau TG i hwyluso a chynorthwyo yn y gwaith o gynnal a chadw data personol, dogfennaeth a chofnodion. | Mae PPC yn colli data ac eiddo deallusol gwerthfawr. Ceir effaith negyddol ar enw da PPC. Mae PPC yn gorfod talu cosbau neu ddirwyon ariannol. | Awdurdod Lletya | • Hyfforddiant parhaus ar arfer orau<br>• Disgwylir i staff perthnasol PPC gwblhau hyfforddiant GDPR<br>• Mabwysiadu porth dogfennau diogel i gadw cofnodion a dogfennaeth perthnasol<br><br>• Penodi Ymgynghorydd Cyfreithiol i ddarparu arweiniad ar reoliadau perthnasol a'r dehongliad o'r rheoliadau hynny<br>• Ymgymryd ag archwiliad allanol<br>• Rheolaethau mewnol addas ar waith gan yr Awdurdod Lletya, gan gynnwys polisi diogelwch seibr<br>• Mae PPC, ym mhob achos, yn lleihau maint y data personol a brosesir neu a gedwir ganddi. Nid yw'n cadw neu brosesu data unrhyw Aelodau | Presennol<br>4 | <br>2 | <br>8 |  | Amherthnasol | Awdurdod Lletya | Mae difrifoldeb y risg bellach wedi ei godi o 2 i 4; mae hyn yn adlewyrchiad o arwyddocâd yr effaith ar enw da a'r dirwyon ariannol a gysylltir â cholli data personol. Bydd PPC hefyd yn llunio risg ychwanegol sy'n ymwneud â data masnachol sensitif / cyfrinachol (Risg G13). |
| | Ariannol / Enw Da | | | Tymor Canolig | | Targed<br>4 | <br>2 | <br>8 | | | Ch1 2022 | |
| G.5 | PPC yn methu â darparu cyfrifon addas a chywir erbyn y dyddiad cau statudol. | • Diffyg cynllunio addas at gau cyfrifon<br>• Diffyg adnoddau gan arwain at gyfrifon hwyr neu annigonol.<br>• Diffyg gwybodaeth / arbenigedd<br>• Ni all y CBLl roi cymeradwyaeth o ganlyniad i amgylchiadau penodol | Caiff enw da PPC ei effeithio'n negyddol. Cyfeiriad posib at Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun neu MHCLG. | Awdurdod Lletya / Cydbwyllgor Llywodraethu | • Hyfforddiant parhaus<br>• Proses archwilio wedi'i hamserlennu<br>• Ymgysylltu ag archwilwyr allanol i drafod terfynau amser a chynllunio ymlaen<br>• Lefel briodol o arbenigedd ar gael gan yr Awdurdod Lletya<br>• Ceir archwiliad allanol o'r cyfrifon gan arbenigydd | Presennol<br>4 | <br>2 | <br>8 |  | Amherthnasol | Awdurdod Lletya | Amherthnasol |
| | Enw Da | | | Tymor Canolig | | Targed<br>4 | <br>2 | <br>8 | | | Ch1 2022 | |
| G.6 | Nid yw PPC yn rheoli gwrthdrawiadau buddiant. | • Methiant personél PPC i ddatgan unrhyw wrthdaro posib.<br>• Dim polisi ar waith sy'n amlinell sut y dylid rheoli gwrthdaro buddiannau.<br>• Anallu personél PPC i wahanu buddiannau personél oddi wrth fuddiannau rhanddeiliaid PPC | Gwneir penderfyniadau anaddas nad ydynt er lles gorau rhanddeiliaid PPC. Ceir effaith negyddol ar enw da PPC. Cyfeiriad posib at Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun a MHCLG. | Personél PPC / Cyflenwyr ac Ymgynghorwyr | • Mae datgan gwrthdaro buddiannau yn eitem sefydlog ar raglen y Cydbwyllgor Llywodraethu<br>• Mae polisi gwrthdaro buddiannau ar waith<br>• Ymgysylltu â chyrff perthnasol megis Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun ar arfer orau a chanllawiau perthnasol<br>• Roedd Rheoli Gwrthdaro Buddiannau yn fater oedd wedi ei gynnwys fel rhan o gynllun hyfforddiant PPC ar gyfer 2020/2021.<br>• Mae angen i aelodau'r GS hysbysu'r GS ar ddechrau'r cyfarfod os yw eu datganiadau buddiant wedi newid ers y cyfarfod blaenorol; yn ogystal, rhaid darparu cadarnhad ysgrifenedig i'r Awdurdod Lletya. | Presennol<br>3 | <br>1 | <br>3 |  | | Awdurdod Lletya / GS | Mae tebygolrwydd y risg hwn wedi ei ostwng o 2 i 1, sy'n golygu fod y risg bellach yn cyd-fynd â'r targed. Gostyngwyd tebygolrwydd y risg yn dilyn:<br>• PPC yn rhoi polisi gwrthdaro buddiannau penodol ar waith<br>• Cynnal sesiwn hyfforddiant penodol ar sut i reoli gwrthdaro buddiannau<br>• Gofyn i bersonél a chyflenwyr PPC gwblhau ffurflenni datgan buddiant personol |
| | Gweithredol / Enw Da | | | Tymor Canolig | | Targed<br>3 | <br>1 | <br>3 | | | Ch1 2022 | |

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**
**PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**24 MAWRTH 2021**

# ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo'r diweddariad i'r:**

- **Polisi Cyfathrebu**

**RHESYMAU:**

Cymeradwyodd y CBLl y Cynllun Cyfathrebu presennol ym mis Rhagfyr 2019. Cafwyd gweithdy cyfathrebu ar ôl cyfarfod y CBLl ym mis Rhagfyr 2020 i gynnal yr adolygiad blynyddol ar y ddogfen hon, ac mae angen i'r CBLl gymeradwyo'r newidiadau iddi.


| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 24 MAWRTH 2021

| **ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL** |
|---|

**CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun dros y 18 mis diwethaf a bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth.

Ym mis Rhagfyr 2019 fe gymeradwyodd y CBLl y Cynllun Cyfathrebu, sy'n egluro sut bydd PPC yn ymgymryd â'i strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol. Mae’r cynllun yn amlinellu'r hyn a ganlyn mewn perthynas â'r Bartneriaeth:

- Cynulleidfa Darged
- Negeseuon Allweddol / Prif Ddiben
- Dull Cyfathrebu
- Cyfrifoldebau
- Y Broses Adolygu a Myfyrio

Ym mis Rhagfyr 2020 fe gynhaliodd Hymans weithdy cyfathrebu, a mynychodd aelodau'r Cydbwyllgor a swyddogion o'r Gweithgor Swyddogion y gweithdy hwn. Roedd y gweithdy cyfathrebu wedi adnabod 'negeseuon allweddol' yr oedd PPC yn dymuno'u cyfleu i gynulleidfaoedd allanol. Felly, mae'r Polisi Cyfathrebu wedi'i ddiweddaru i gynnwys dwy 'neges allweddol' ychwanegol;

- Natur Arloesol a Flaengar y Bartneriaeth
- Maint y Pŵl

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Polisi Cyfathrebu ar ôl ei ddiwygio yn cael ei ddiweddaru ar wefan PPC.

| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |
|---|---|

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES** | Cyfreithiol **DIM** | Cyllid **DIM** | Materion Rheoli Risg **DIM** | Goblygiadau Staffio **DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Polisi Cyfathrebu yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |
| --- |
| |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
| --- | --- | --- |
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

**Partneriaeth Pensiwn Cymru – Polisi Cyfathrebu**

**Cyflwyniad**

1. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru ("PPC") o'r farn fod cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol yn hanfodol os ydyw am lwyddo i gyflawni ei hamcanion. Mae PPC, fel rhan o'i hymrwymiad i'r gred hon, wedi cytuno i lunio a chynnal polisi cyfathrebu.

2. Mae'r polisi cyfathrebu hwn yn egluro sut bydd PPC yn ymgymryd â'i strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol. Mae'r cynllun yn amlinellu'r hyn a ganlyn mewn perthynas â'r Bartneriaeth:

   2.1 Cynulleidfa Darged

   2.1 Negeseuon Allweddol / Prif Ddiben

   2.2 Dull Cyfathrebu

   2.3 Cyfrifoldebau

   2.4 Y Broses Adolygu a Myfyrio

3. Amcan PPC wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw:

   3.1 dangos ei hymrwymiad i gyfathrebu effeithiol.

   3.2 cadw at gred PPC y bydd cyfathrebu effeithiol yn fewnol ac yn allanol yn helpu'r Bartneriaeth i gyflawni ei hamcanion.

   3.3 rhoi gweithdrefnau a mecanweithiau ar waith i sicrhau bod PPC yn parhau i gyfathrebu a rhoi gwybodaeth i'w budd-ddeiliaid.

4. Mae PPC yn cydnabod bod methiant i gyfathrebu'n effeithiol yn peri risg sylweddol i'r Bartneriaeth a phrif fuddiannau'r budd-ddeiliaid sy'n gysylltiedig â PPC, a gallai canlyniadau hyn gynnwys cam-gyfathrebu, gwneud penderfyniadau gwael, ac oedi mewn amserlenni. Mae nifer o ffactorau y mae angen eu monitro a'u rheoli er mwyn gallu gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys:

   4.1 Cyfathrebu'n effeithiol y cyfrifoldebau a amlinellir yn y polisi hwn.

   4.2 Adnabyddiaeth a pherchnogaeth glir o'r rolau a amlinellir yn y polisi.

   4.3 Hyfforddiant addas a dealltwriaeth o'r rolau a'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y polisi hwn.

5. Mae'r polisi hwn wedi'i lunio i roi arweiniad a manylder i staff PPC a'i fudd-ddeiliaid. Datblygwyd y polisi hwn gan PPC mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol.

6. Mae PPC yn cydnabod y bydd ei chynulleidfa, prif negeseuon, cyfrifoldebau a dulliau cyfathrebu, yn esblygu. Felly, bydd PPC yn cynnal adolygiad llawn o'i Pholisi Cyfathrebu bob blwyddyn.

7. Bydd yr adolygiad blynyddol yn cael ei gwblhau gan y Gweithgor Swyddogion ('GS'), a diben yr adolygiad fydd asesu p'un a yw Polisi Cyfathrebu PPC yn parhau i fod yn briodol neu a ddylid ei ddiweddaru. Yn ystod yr adolygiad blynyddol bydd y GS yn ystyried cwestiynau sydd o bosib yn heriol y gellid eu gofyn i PPC ac yn llunio ymatebion addas i'r cwestiynau hyn. Ar ôl cwblhau'r adolygiad blynyddol ar gynllun cyfathrebu PPC, bydd y GS yn cynnig addasiadau i'r cynllun i'r CBLl eu cymeradwyo.

**Cyfathrebu Mewnol**

8. Fel rhan o'i gynllun cyfathrebu mewnol, bydd PPC yn ceisio cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyrff mewnol a ganlyn:

   8.1 Awdurdodau Cyfansoddol

   8.2 Swyddogion

   8.3 Aelodau'r CBLl

   8.4 Aelodau’r Cynllun

   8.5 Pwyllgorau Pensiwn

   8.6 Byrddau Pensiwn

   8.7 Fforymau Pensiwn

   8.8 Cyflogwyr

   8.9 Cyflenwyr (e.e. Y Gweithredwr)

9. Mae PPC yn cydnabod y bydd cyfathrebu mewnol yn meithrin mwy o gydweithio ymysg personél PPC ac yn helpu i sicrhau bod pawb yn gwbl ymwybodol ac yn gweithio'n unol â chredoau, amcanion a blaenoriaethau'r Bartneriaeth.

10. Bydd gwell cyfathrebu mewnol yn caniatáu lefelau mwy o rannu gwybodaeth ymysg y Bartneriaeth ac yn gwella proses gwneud penderfyniadau'r Bartneriaeth. Yn ogystal, bydd cyfathrebu mewnol yn gadael i PPC feithrin ei hunaniaeth a'i diwylliant unigryw ei hun, a bydd hyn yn ei galluogi i ddatblygu ei weledigaeth unedig a chynllun taith ei hun ymhellach.

11. Mae PPC wedi adnabod y dulliau a'r sianelau cyfathrebu a ganlyn fel y modd y bydd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'i fudd-ddeiliaid mewnol:

   11.1 Diweddariad Blynyddol PPC

   11.2 Adroddiad Blynyddol PPC

   11.3 Gwefan

   11.4 Cyfryngau Cymdeithasol (LinkedIn)

   11.5 E-byst

   11.6 Nodiadau cryno o gyfarfodydd

   11.7 Diweddariad Chwarterol gan yr Awdurdod Lletyol

   11.8 Arolygon, Holiaduron ac Ymgynghoriadad

   11.9 Porthol dogfen fewnol

   11.10 Cyfarfodydd rhithiol bob yn ail wythnos

11.11 Cyfarfodydd y GS

11.12 Cyfarfodydd y CBLl

11.13 Cyfarfodydd Is-grŵp

11.14 Diwrnodau ymgysylltu

11.15 Sesiynau hyfforddiant

12. Mae'r tabl isod yn amlinellu pwy sy'n gyfrifol am elfennau penodol o gynllun cyfathrebu mewnol PPC:

| **Tasg / Sianel Gyfathrebu:** | **Cyfrifoldeb:** |
|---|---|
| Diweddariad Blynyddol PPC | Cadeirydd y CBLl a'r Awdurdod Lletyol |
| Adroddiad Blynyddol PPC | Cadeirydd y CBLl a'r Awdurdod Lletyol |
| Gwefan | Yr Awdurdod Lletyol |
| Cyfryngau cymdeithasol | Yr Awdurdod Lletyol |
| E-byst | Holl bersonél PPC |
| Nodiadau cryno o gyfarfodydd | Yr Awdurdod Lletyol |
| Diweddariad Chwarterol gan yr Awdurdod Lletyol | Yr Awdurdod Lletyol |
| Arolygon, Holiaduron ac Ymgynghoriadau | Yr Awdurdod Lletyol |
| Porthol dogfen fewnol | Yr Awdurdod Lletyol |
| Cyfarfodydd Rhithiol bob yn ail wythnos | Yr Awdurdod Lletyol / Gweithredwr / Ymgynghorwyr |
| Cyfarfodydd y GS | Aelodau'r GS |
| Cyfarfodydd y CBLl | Aelodau'r CBLl a'r GS |
| Cyfarfodydd Is-grŵp | Aelodau'r GS |
| Diwrnodau ymgysylltu | Yr Awdurdod Lletyol / Gweithredwr / Rheolwyr Buddsoddi |
| Sesiynau Hyfforddiant | Yr Awdurdod Lletyol |

**Cyfathrebu Allanol**

13. Fel rhan o'i chynllun cyfathrebu allanol, bydd PPC yn ceisio cyfathrebu'n rhagweithiol gyda'r cyrff a ganlyn:

    13.1 Llywodraeth Ganolog (gan gynnwys Gweinidogion)

    13.2 Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Gweinidogion)

    13.3 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

    13.4 Undebau

    13.5 Y Cyfryngau

    13.6 Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun (SAB)

    13.7 Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)

    13.8 Fforwm Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol (LAPFF)

    13.9 Cymdeithas Trysoryddion Cymru

    13.10 Grwpiau Lobïo

    13.11 Cronfeydd cyfun eraill

14. Mae PPC wedi adnabod y negeseuon allweddol a ganlyn fel y rhai mae'n dymuno eu cyfleu i gynulleidfaoedd allanol:

    14.1 Cyflawni Llwyddiant a Chreu Arbedion Cost – mae PPC yn falch o'i llwyddiant hyd yma ac yn ymroddedig i gyflawni llwyddiant parhaus. Mae PPC wedi rhoi gwerth am arian wrth wraidd ei phroses gwneud penderfyniadau, gyda'r amcan o greu arbedion cost. Mae'r model cyd-fuddsoddi a fabwysiadwyd gan PPC wedi galluogi iddi osgoi costau sefydlu a gweithredu uchel. Mae model PPC wedi darparu fframwaith sy'n cyflwyno cyfleoedd buddsoddi deniadol a chost effeithiol i Awdurdodau Cyfansoddol, ac mae'n parhau i wneud hynny. Hyd yma mae ein dewis o fodel Cyd-fuddsoddi wedi cyflawni ein hamcanion o greu arbedion ar ffioedd Rheolwyr Buddsoddi ac arbedion ar gostau gweithredu, tra'n parhau i berfformio'n dda ar fuddsoddiadau.

    14.2 Cydweithio – mae PPC yn seiliedig ar yr egwyddor fod Awdurdodau Cyfansoddol Cymru yn llwyr ymroddedig i weithio gyda'i gilydd er pennaf les eu haelodau sylfaenol, eu cyflogwyr a budd-ddeiliaid eraill. Mae PPC yn adeiladu ar y perthnasau cryf a'r hanes cadarn o gydweithio y bu i'r Awdurdodau Cyfansoddol eu sefydlu fel rhan o'u menter 'Cydweithio'. Mae cryfder a chynnydd PPC tuag at well deilliannau i'w buddiolwyr yn seiliedig ar allu'r Awdurdodau Cyfansoddol i gydweithio a chydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Fel Awdurdodau Cyfansoddol, rydym yn cydnabod y gallwn gyda'n gilydd gyflawni llawer gwell deilliannau i'n budd-ddeiliaid nag y gallem petaem yn gweithredu'n unigol.

    14.3 Maint y Pŵl – mae maint PPC yn gymorth i'w natur o gydweithio. Mae gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol, oherwydd eu maint tebyg, ofynion ac anghenion tebyg, ac mae hynny'n arwain at lefelau uwch o gydweithio yn y pendraw. Oherwydd bod gennym wyth Awdurdod Cyfansoddol,

mae'n caniatáu amrywiaeth barn, ond hefyd yn sicrhau nad yw safbwynt unrhyw Awdurdod unigol yn mynd ar goll yng nghanol llu o leisiau croes. Rydym wedi gallu dangos nad yw ein maint wedi cyfyngu o gwbl ar ein gallu i gyflawni arbedion mewn ffioedd Rheolwyr Buddsoddi ac arbedion cost gweithredu.

14.4 Arloesol a Blaengar – mae PPC yn sefydliad blaengar sydd wastad yn fodlon ac yn frwd dros geisio gwella ei dulliau a'i gweithdrefnau presennol. Mae hunan-asesu a dysgu o brofiad yn elfen hanfodol o'n fframwaith llywodraethu. Credwn y bydd dysgu ac arloesi yn sicrhau y gallwn barhau i gwrdd ag anghenion a gofynion ein budd-ddeiliaid. Rydym wedi arfer dulliau arloesol drwy holl agweddau'r Bartneriaeth, ond rydym yn arbennig o blês gyda'r ffyrdd yr ydym wedi gallu ymgorffori arloesedd yng nghynigion buddsoddi PPC.

14.5 Cyflawni Buddion i Aelodau'r Cynllun a Chyflogwyr – mae PPC yn falch o'i fodel cyd-fuddsoddi sydd wedi'i ddylunio i fodloni anghenion Awdurdodau Cyfansoddol PPC, a fydd yn eu tro yn cwrdd ag anghenion eu haelodau a'u cyflogwyr.  Mae PPC yn ymdrechu i gael y safonau llywodraethu uchaf a chyflawni buddion y buddiolwyr.

14.6 Hunaniaeth Gymreig – mae PPC yn falch o gynrychioli Cymru gyfan a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru.  Mae PPC yn cynrychioli cydweledigaeth Awdurdodau Cyfansoddol Cymru a'r map y maent wedi'i ddatblygu i gyflawni'r weledigaeth hon.  Rydym yn ymgorffori ein hunaniaeth Gymreig yn rheolaeth a gweithdrefnau'r Bartneriaeth, a byddwn yn sicrhau bod ein gwefan a'n cyfarfodydd cyhoeddus yn parhau i fod ar gael yn ddwyieithog.

14.7 Aelod Balch o'r Gymuned CPLlL – mae PPC yn falch o'i threftadaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae wedi ymgorffori'r nodweddion CPLlL a ganlyn yn rhan o'i strwythur: llywodraethu cadarn, tryloywder a lefelau uchel o atebolrwydd lleol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ofalus iawn ei fod yn ymgorffori egwyddorion a nodweddion CPLlL yn ei strwythur, gan sicrhau nad yw'r diwylliant yn crwydro o gwbl o'i ymrwymiad llwyr i ddemocratiaeth ac ymgysylltu â Byrddau Pensiwn. Mae PPC yn dal i gael ei llywodraethu trwy broses ddemocrataidd, ac mae'n fraint i ni fod gennym lefelau uchel o ymgysylltiad â Byrddau Pensiwn drwy'r amser.

15. Mae PPC wedi adnabod y dulliau a'r sianelau cyfathrebu a ganlyn fel y modd y bydd yn gweithredu ei pholisi cyfathrebu allanol ac yn cyfleu prif negeseuon i'w chynulleidfa darged:

15.1 Gwefan PPC

15.2 Cyfryngau Cymdeithasol (e.e.  LinkedIn)

15.3 Diweddariad Blynyddol ar Gynnydd PPC

15.4 Datganiadau allanol i'r wasg a datganiadau i'r wasg

15.5 Papurau cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLl') sydd ar gael yn gyhoeddus

15 Bydd PPC hefyd yn ymgysylltu â'r cyrff a'r sefydliadau a ganlyn. Mae PPC yn cydnabod bod ymgysylltu a chydweithio â'r cyrff hyn hefyd yn chwarae rhan bwysig yn ei strategaeth Gyfathrebu.

16.1 Cyfarfodydd Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun (SAB)

16.2 Ymgynghoriadau MHCLG

16.3 Presenoldeb mewn cynadleddau a digwyddiadau allanol

16.4 Cynrychiolaeth mewn gweithgorau perthnasol neu gyfleoedd i gydweithio

16.5 Cyfarfodydd rhwng Cronfeydd

17. Mae'r tabl isod yn amlinellu pwy sy'n gyfrifol am elfennau penodol o bolisi cyfathrebu allanol PPC:

| **Sianel Gyfathrebu / Ymgysylltu:** | **Cyfrifoldeb i:** |
|---|---|
| Cyfleu negeseuon allweddol PPC a gweithredu ar Gynllun Cyfathrebu PPC | Holl bersonél PPC |
| Cynnal a chadw gwefan PPC | Yr Awdurdod Lletyol |
| Ymgynghoriadau MHCLG | Yr Awdurdod Lletyol (gyda chymorth gan bartïon perthnasol) |
| Cynnal a chadw cyfryngau cymdeithasol PPC | Yr Awdurdod Lletyol |
| Diweddariad Blynyddol ar Gynnydd PPC | Cadeirydd y CBLl |
| Cyhoeddiadau a datganiadau i'r Wasg* | Cadeirydd y CBLl, Cadeirydd y GS a'r Awdurdod Lletyol |
| Papurau cyfarfodydd y CBLl sydd ar gael yn gyhoeddus | Holl bersonél PPC |
| Cyfarfodydd Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun (SAB) | Aelodau'r CBLl |
| Presenoldeb mewn cynadleddau a digwyddiadau allanol | Holl bersonél PPC |
| Cynrychiolaeth mewn gweithgorau perthnasol neu gyfleoedd i gydweithio | Personél perthnasol PPC |
| Cyfarfodydd rhwng Cronfeydd | Personél perthnasol PPC |

*Cadeirydd y CBLl fydd yn gwneud cyhoeddiadau a datganiadau i'r wasg, oni bai bod amgylchiadau lliniarol sy'n golygu na fedr Cadeirydd y CBLl wneud neu gyhoeddi datganiadau. Bydd datganiadau drafft i'r wasg yn cael eu cylchredeg i aelodau'r CBLl a'r GS iddynt eu cymeradwyo.

**Gwybodaeth Bellach**

18. Os hoffech ragor o fanylion am Bolisi Cyfathrebu PPC, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk

***Fersiwn 2.0***
***Mawrth 2021***

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## 24 MAWRTH 2021

| DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR |
|---|
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Derbyn cyflwyniad gan y Gweithredwr ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Y gweithredwr i roi diweddariad ar y meysydd allweddol a ganlyn:<br>• Daliadau Presennol y Gronfa<br>• Cynnydd efo Lansiad y Cronfeydd<br>• Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol |



| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swydd:** | **Rhif Ffôn: 01267 224160** |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 24 MAWRTH 2021

| DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR |
|---|
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Adroddiad gan y Gweithredwr yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a'r cerrig milltir dan yr Is-gronfeydd a ganlyn:<br><br>• Haen 1 – Ecwiti Byd-eang<br>• Haen 2 – Ecwiti y DU<br>• Haen 3 – Incwm Sefydlog<br>• Haen 4 – Marchnadoedd Datblygol<br>• Haen 5 – Marchnadoedd Preifat<br><br>Hefyd, diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu yn cynnwys y protocol ymgysylltu a dyddiadau cyfarfodydd allweddol. |

| ADRODDIAD MANWL YNGHLWM? | OES |
|---|---|

## GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**DIM** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma. |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |


# Partneriaeth Pensiwn Cymru

## Cydbwyllgor Llywodraethu


24 Mawrth 2021

# Rhagfyr 2020 Braslun LF o Gronfa PP Cymru


## Twf Byd-eang





## Cyfleoedd Byd-eang





## Cyfleoedd y DU





## Credyd Byd-eang





## Bond Byd-eang y Llywodraeth





## Credyd Aml-ased




## Credyd Sterling




## Bond Enillion Absoliwt




Allwedd:
- Dyfed
- Powys
- Gwynedd
- Rhondda Cynon Taf
- Torfaen
- Clwyd
- Abertawe
- Caerdydd

# Rhagfyr 2020 Braslun LF o Gronfa PP Cymru

| Cronfa | AUM | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Twf Byd-eang | £2,765,653,588 | 6 Chwe 2019 |
| Cyfleoedd Byd-eang | £2,497,364,432 | 14 Chwe 2019 |
| Cyfleoedd y DU | £635,984,319 | 10 Hyd 2019 |
| Credyd Byd-Eang | £813,895,265 | 21 Awst 2020 |
| Bond Llywodraeth Byd-eang | £541,409,848 | 20 Awst 2020 |
| Credyd aml-ased | £672,186,892 | 12 Awst 2020 |
| Credyd Sterling | £575,953,784 | 19 Awst 2020 |
| Bond Enillion Absoliwt | £441,065,073 | 30 Medi 2020 |
| **Cyfanswm** | **£8,943,513,201** | |

Noder: Yr holl ddata fel ar 31 Rhagfyr 2020

# Adroddiad Cynnydd ar Lansiad y Gronfa

**Diweddariadau Haenau 3, 4 a 5**

# Agor Gweithgaredd Lansio

## Llwyddiannau Allweddol a Diweddariadau

Allwedd:
- Ar y trywydd iawn
- Yn gwneud cynnydd ond peth oedi
- Llonydd am y tro / yn gwneud cynnydd ond gydag oedi mawr

| Cynnydd o ran Lansio Cronfeydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Trosolwg** | **Statws** | **Cynnydd yn y cyfnod** | **Dyddiadau lansio** |
| Haen 3: **Lansio'r is-gronfa Incwm Sefydlog** | ▪ Sefydlu 5 o is-gronfeydd Incwm Sefydlog o fewn yr ACS<br>▪ Derbyniwyd cymeradwyaeth yr FCA a phenodwyd BlackRock fel y rheolwr trosi | Cwbl-hawyd | ▪ Pob un o'r 5 cronfa wedi lansio'n llwyddiannus<br>▪ Mae BlackRock wedi cwblhau'r adroddiad a'r adolygiad ôl-drosglwyddo gyda'r Awdurdod Lletya / Hymans 28 Medi (dogfen derfynol wedi'i chyflwyno 26 Hydref)<br>▪ Adolygiad Byhiras o'r trosglwyddiad wedi'i gwblhau | 27 a 30 Gorffennaf 2020<br>30 Medi |
| Haen 4: **Lansio'r is-gronfa Marchnadoedd Datblygol** | ▪ Caiff y gronfa Marchnadoedd Datblygol ei chreu o dan y model Gweithredu Portffolio Estynedig gyda thros-haen lleihau carbon | Yn mynd rhagddo | ▪ Cytunodd y CBLI ar y strwythur rheolwyr a gynigiwyd ym mis Mawrth 2020<br>▪ Adolygiad prosbectws wedi'i gwblhau gan LFS, Burgess Salmon a NT Depositary<br>▪ Cyflwyno i'r FCA i fod i ddigwydd ar 19 Chwefror | Medi 2021 |

| Datblygiadau strategol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Trosolwg** | **Statws** | **Cynnydd yn y cyfnod** | **Dyddiad lansio a gynlluniwyd** |
| Haen 5: **Datblygu strategaeth Marchnadoedd Preifat** | ▪ Datblygu strategaeth Marchnadoedd Preifat PPC gan gynnwys map ffordd ar gyfer y posibilrwydd o greu is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat sy'n canolbwyntio'n benodol ar Ddyledion Preifat ac Isadeiledd | Yn mynd rhagddo | ▪ Papur Russell Investments i amlinellu'r cynnig lansio yn seiliedig ar ased etifeddiaeth a chynllun strategol pob Awdurdod sy'n cymryd rhan, a drafodwyd o fewn y Gweithgor<br>▪ Darparodd LFS bapur ymgynghori ar strwythurau addas i'r Awdurdod Lletya / Hymans ar 28 Awst.<br>▪ Papur dilynol ar y model gweithredu a'r dull buddsoddi wedi'i ddarparu i'r Awdurdod Lletya / Hymans ar 28 Hydref | Medi i Ragfyr 2021 |

LINK Group

# Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol LFS

# Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol LFS

**Cyhoeddiad ASX**

- Derbyniwyd cynnig dangosol di-rwymol i gaffael Link Group gan gonsortiwm oedd yn cynnwys Pacific Equity Partners, Carlyle Group a'u cysylltiadau (Consortium), dyddiedig 10 Hydref 2020
- Gwrthodwyd y cynnig hwn gan nad oedd yn rhoi gwerth da i gyfranddalwyr Link Group ac mae cynnig dilynol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.
- Nid yw'r digwyddiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar gyflwyniad ein gwasanaeth a'n hymrwymiad i PPC

**Ymgysylltu Allweddol PPC yn Ch3 ac yn y dyfodol**

**Presenoldeb Link yng nghyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion/CBLI yn y cyfnod:**

- Gweithgor Swyddogion 4 Tachwedd 2020 (VC)
- Cydbwyllgor Llywodraethu 10 Rhagfyr 2020 (VC)

**Presenoldeb Link yng nghyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion/CBLI yn y chwarter nesaf:**

- Gweithgor Swyddogion 26 Chwefror 2021 (VC)
- Cydbwyllgor Llywodraethu 24 Mawrth 2021 (VC)

**Link - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiwn yn y cyfnod:**

- Dyfed - 16 Hydref 2020
- Clwyd - 25 Tachwedd 2020

**Link - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiwn yn y chwarter nesaf :**

- RhCT – 1 Mawrth 2021 (VC)

**Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletyol - bob pythefnos
- Y Gweithgor - digwydd bob pythefnos

**Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletyol - bob pythefnos
- Y Gweithgor - digwydd bob pythefnos

# Protocol Ymgysylltu LFS

## Busnes fel Arfer

| Adolygu'r Berthynas Strategol | Amlder | Amcan |
|---|---|---|
| | Dwywaith y flwyddyn | ▪ Sicrhau aliniad strategol rhwng yr Awdurdod Lletyol a Link |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Chris Moore<br>▪ Anthony Parnell<br>▪ Dau Swyddog Adran 151 / Dau Ddirprwy Swyddog Adran 151 | | **Mynychwyr Link**<br>▪ Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr<br>▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ Duncan Lowman, Pennaeth Cleientiaid |

| Ymgysylltiad â'r CBLI | Amlder | Amcan |
|---|---|---|
| | Chwarterol | ▪ Ymgysylltu â'r CBLI ar faterion perthnasol a phosibiliadau strategol |
